# Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD GWENER, 21AIN MEHEFIN, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**


Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd Dydd Iau, 13 Mehefin 2024)

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Aelodau Cyngor

Cyng. Jason McLellan- Cyngor Sir Ddinbych
Cyng. Llinos Medi Huws - Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Charlie McCoubury - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng. Mark Pritchard - Cyngor Wrecsam
Cyng. Ian Roberts - Cyngor Sir y Fflint
Cyng. Dyfrig L Siencyn - Cyngor Gwynedd

Aelod Eryri

Tim Jones – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Swyddogion

Dafydd Gibbard - Cyngor Gwynedd – Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor
Dylan Williams - Cyngor Sir Ynys Môn
Rhun ap Gareth - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Neal Cockerton - Cyngor Sir y Fflint
Graham Boase - Cyngor Sir Ddinbych
Ian Bancroft - Cyngor Wrecsam
Emyr Williams – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Swyddogion Statudol

Dewi Aeron Morgan – Prif Swyddog Cyllid
Iwan G Evans – Swyddog Monitro

# R H A G L E N

**1. CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer 2024/25.

**2. IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gelir eu hystyried.

**6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Mawrth, 2024 fel rhai cywir.

**7. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2024/25** 9 - 17

Dewi A Morgan, Pennaeth Cyllid y CBC (Swyddog Cyllid Statudol) a Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol y CBC i ddarparu Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 2024/25.

**8. ADRODDIAD ALLDRO A FFURFLEN FLYNYDDOL 2023/2** 18 - 27

Dewi A Morgan, Pennaeth Cyllid y CBC (Swyddog Cyllid Statudol) a Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol y CBC i ddarparu diweddariad ar sefyllfa alldro terfynol 2023/24 i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd a chael cymeradwyaeth i'r Ffurflen Flynyddol Swyddogol ar gyfer 2023/24.

**9. DIWEDDARIAD: SWYDDOGAETHAU BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU – TROSGLWYDDO I'R CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG** 28 - 36

Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr y Cyngor Arweiniol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ag Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru a Phrif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd i gyflwyno diweddariad pellach ar gynnydd i sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) gan ymateb i'w swyddogaethau statudol a chyflawni trosglwyddiad arfaethedig swyddogaethau Bwrdd Uchelgais

Economaidd Gogledd Cymru i'r CBC.

**10. PENODI AELODAU CYFETHOLEDIG I'R IS-BWYLLGORAU CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH** 37 - 50

Iwan Evans, Swyddog Monitro i gyflwyno'r adroddiad.

**11. HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO DRAFFT SAFONAU'R GYMRAEG RHEOLIADAU RHIF1** 51 - 88

Alwen Williams, Prif Weithredwr dros dro i gyflwyno'r adroddiad.

**12. DATGANIAD POLISI TAL 2024/25** 89 - 93

Alwen Williams, Prif Weithredwr dros dro y CBC i gyflwyno polisi tâl Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2024/25.

**13. DYDDIADAU ARFAETHEDIG AR GYFER CYFARFODYDD Y DYFODOL** 94

Iwan Evans, Swyddog Monitro i gyflwyno'r calendr draft ar gyfer y cyfnod at fis Mai 2025.

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD DYDD GWENER, 22 MAWRTH 2024

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd)

**Y Cynghorwyr:** Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

**Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:** Tim Jones

**Prif Swyddogion:** Geraint Owen (Cyngor Gwynedd), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn) Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Gary Williams (Cyngor Sir Ddinbych) ac Emyr Williams (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Swyddogion Statudol**
Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid) ac Claire Incledon (Dirprwyo ar ran y Swyddog Monitro).

**Swyddogion eraill yn bresennol**
Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) ac Annes Siôn (Arweinydd Tim Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

- Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn) gyda'r Cynghorydd Gary Pritchard yn dirprwyo;
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Geraint Owen yn dirprwyo
- Iwan G Evans (Cyngor Gwynedd) gyda Claire Incledon yn dirprwyo.

Croesawyd y dirprwyon i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) oherwydd ei phenodiad fel Prif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Nodwyd ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac fe adawodd y cyfarfod ar gyfer rhan B o eitem 5.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2024 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD O DROSGLWYDDO SWYDDOGAETHAU I'R CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG, A THREFNIADAU CYCHWYNNOL AR GYFER YMESTYN SECONDIAD CYFREDOL A PHENODIAD DILYNOL Y PRIF WEITHREDWR**

Cyflwynwyd yr adroddiad mewn dwy ran gydag Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC) yn cyflwyno rhan A a Geraint Owen (Cyngor Gwynedd) yn cyflwyno rhan B.

**PENDERFYNWYD:**

Rhan A:

Nodwyd y wybodaeth ddiweddaraf am waith i sefydlu CBC y Gogledd, gan gynnwys datblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol (RTP) a'r Cynllun Datblygu Strategol (SDP) i weithredu’r dyletswyddau a swyddogaethau statudol y CBC; a sefydlu Prosiect Gweithredol ar gyfer CBC y Gogledd.

Rhan B:

Cytunwyd i roi estyniad i'r trefniant presennol, ar gyfer secondiad rhan-amser Alwen Williams i rôl Prif Weithredwr CBC, hyd at ddiwedd Mehefin 2024. Yn amodol ar gwblhau’n ffurfiol yr ymgynghoriad TUPE cyfredol gyda staff Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, i gadarnhau trosglwyddiad arfaethedig a phenodi Alwen Williams fel Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig o 1 Gorffennaf, 2024.

**TRAFODAETH**

Rhan A:

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn rhoi diweddariad o’r cynnydd sydd wedi digwydd o ran sefydlu’r Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd. Nodwyd rhwng Rhagfyr 2021 ac Ionawr 2022 fod Cabinet a Phwyllgorau Gwaith ym mhob un o’r chwe Awdurdod Lleol, wedi cytuno mewn egwyddor y dylid trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru drwy gytundeb dirprwyo i’r CBC. Eglurwyd fod penderfyniad yr adroddiad hwn yn galluogi’r trosglwyddiad hwn i gychwyn a’i gwblhau. Eglurwyd fod fframwaith statudol a sefydlu’r CBC yn golygu fod angen symud ymlaen gyda’r trosglwyddiad arfaethedig.

Eglurwyd fod atodiad 1 o’r adroddiad yn rhoi diweddariad ar feysydd megis Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol, y Parth Buddsoddi yn Sir y Fflint a Wrecsam ynghyd a’r Cynllun Datblygu Strategol. Ategwyd yr angen yn ogystal i’r CBC fod yn ymgymryd â dyletswyddau a swyddogaethau statudol megis Safonau’r Gymraeg ac i gydymffurfio a dyletswyddau i gyrff cyhoeddus megis Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a'r Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Mynegwyd er mwyn trosglwyddo’r swyddogaethau i'r CBC y bydd angen creu Bwrdd Prosiect Gweithredol ar gyfer CBC y Gogledd.

Rhan B:

Eglurwyd fod rhan gyntaf y penderfyniad wedi cael ei gymeradwyo dwywaith dros y flwyddyn ddiwethaf, sef i ymestyn cyfnod secondiad Alwen Williams o fel Prif Weithredwr y CBC o’r 1 Ebrill hyd ddiwedd Mehefin. Eglurwyd fod yr eitem hon wedi ei drafod y Bwrdd Uchelgais a gynhaliwyd wythnos diwethaf a’i fod wedi ei gytuno ganddynt.

Mynegwyd fod 1 Gorffennaf wedi ei adnabod fel dyddiad amodol ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o'r Bwrdd Uchelgais i'r Cydbwyllgor Corfforedig. O ganlyniad i hyn y bydd angen trosglwyddo'r staff. Fel rhan o'r trefniadau yma mae ymgynghoriad yn ofynnol gyda staff fel y nodir gan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau 2006. Gan y bydd staff y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn trosglwyddo ar y telerau ac amodau cyfredol, ni ragwelir y bydd y trosglwyddiad arfaethedig y staff o un corff cyhoeddus i'r llall yn profi'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â llawer o drosglwyddiadau TUPE ac felly nid yw'n cael ei ystyried yn rhwystr posibl i drosglwyddo swyddogaethau ar 1 Gorffennaf, 2024.

Dim ond un swydd fydd yn cael ei effeithio sef y Prif Weithredwr. Eglurwyd fod y swydd ddisgrifiad ar gyfer rôl ynghyd a chopi o swydd ddisgrifiad presennol y Cyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais edi ei atodi gyda'r adroddiad ac amlygwyd fod aliniad sylweddol rhwng y ddwy swydd ddisgrifiad. O ganlyniad i hyn, ac yn unol â chanllawiau ac ymarfer TUPE cynghorir y dylid penodi Alwen Williams, fel deiliad presennol y swydd o fewn y Bwrdd Uchelgais, i swydd Prif Weithredwr y CBC ar sail barhaol yn amodol ar gwblhau ymgynghoriad TUPE gyda'r holl staff.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Yn dilyn trafodaeth faith am y mater yn y Bwrdd Uchelgais mynegwyd fod y cam hwn yn un naturiol a fydd yn rhoi diwedd ar ymestyn cyfnod secondiad y Prif Weithredwr.

## 6. CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU - ACHOS DROS NEWID DRAFFT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif weithredwr dros dro'r CBC a Catrin Jones, Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cydbwyllgor Corfforedig.

**PENDERFYNWYD:**

Cytunwyd i'r 15 amcan o fewn yr Achos dros Newid drafft fel rhan o Gynllun Trafnidiaeth Gogledd Cymru.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, fod Canllawiau Statudol Cyd-bwyllgor Corfforedig Llywodraeth Cymru a'r Canllawiau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar Gynlluniau Trafnidiaeth Ranbarthol Fersiwn 2 yn nodi un o swyddogaethau statudol Cyd-bwyllgor Corfforedig yw datblygu Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol. Mae'r Achos dros y Newid yn rhan o'r broses o ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol ar gyfer rhanbarth y Gogledd.

Eglurwyd fod y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol gan y CBC ers 24 Tachwedd 2023. Nodwyd mai cam nesaf yw gofyn am ddatblygu Achos dros Newid - a fydd yn nodi nodau ynghyd ag amcanion ac adnabod y materion allweddol, heriau a chyfleoedd y dylai'r cynllun eu hystyried wrth ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth integredig ar gyfer Gogledd Cymru. Fel rhan o hyn mae angen adnabod 15 amcan i danategu a chefnogi'r Achos dros Newid. Cyflwynwyd yr 15 amcan.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 14:25

**CADEIRYDD**

# ADRODDIAD I GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

# 21/06/2024

**Teitl:** Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2024/25

**Awduron:** Dewi A Morgan, Pennaeth Cyllid y CBC (Swyddog Cyllid Statudol)
Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol y CBC

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer 2024/25.

## 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1 Derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2024/25.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1 Gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn ddyddiol ac fe dirprwyir i Bennaeth a staff yr Adran Gyllid yng Nghyngor Gwynedd ac mae'n ofynnol iddynt weithredu yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys sydd wedi ei gymeradwyo.

## 4. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2024/25

4.1 Mae rheolaeth trysorlys yn ymwneud â chadw digonedd ond nid gormodedd o arian parod i ddiwallu anghenion gwariant y CBC, gan reoli'r risgiau cysylltiedig.

4.2 Gan fod bwriad i drosglwyddo Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) i'r CBC ar 1 Tachwedd 2024 mae'r ffigyrau yn y Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2024/25 yn cynnwys cyfanswm arian y CBC fel mae'n sefyll ar hyn o bryd ynghyd â'r arian y BUEGC fydd yn trosglwyddo.

**5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

5.1 Mae'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2024/25 wedi ei selio ar Côd CIPFA a'r Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol gan Llywodraeth Cymru ac felly yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y CBC dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

**8. ATODIADAU**

Atodiad 1 – Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2024/25.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

## Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2024/25

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Rheolaeth trysorlys yw rheolaeth llif arian, benthyca a buddsoddiadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r risgiau cysylltiol. Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) yn buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly bydd yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli buddsoddiadau a'r effaith refeniw o'r newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae adnabod, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus felly yn ganolog i reolaeth ariannol bwyllog y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

**1.2** Mae rheolaeth risg trysorlys y CBC yn rhan o fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth *Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Rhifyn 2021* (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r CBC gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LlC) gyhoeddi canllaw diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sef y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* sy'n gofyn i'r Cyd- bwyllgor gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y Cyd-bwyllgor dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LlC.

**1.3** Yn unol ag Arweiniad LlC, gofynnir i'r CBC gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys diwygiedig os yw'r tybiaethau sydd yn sail i'r adroddiad hwn yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau neu yn lefel ei balans buddsoddi.

**1.4** Gan fod bwriad i drosglwyddo Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) i'r CBC ar 1 Tachwedd 2024 mae'r ffigyrau yn y Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys yma yn cynnwys cyfanswm arian y CBC fel mae'n sefyll ar hyn o bryd ynghyd â'r arian y BUEGC fydd yn trosglwyddo.

## 2. Y Cyd-destun Allanol

### 2.1 Cefndir Economaidd

Cynyddodd Banc Lloegr (BoE) y Gyfradd Banc i 5.25% ym mis Awst 2023, cyn cynnal y lefel hon am weddill 2023. Ym mis Mawrth 2024, pleidleisiodd aelodau Pwyllgor Polisi Ariannol y BoE 8-1 o blaid cadw Cyfradd Banc ar 5.25%.

Mae chwyddiant y DG wedi parhau i ostwng o'r gyfradd o 8.7% a welwyd ar ddechrau 2023/24. Erbyn chwarter olaf y flwyddyn ariannol roedd chwyddiant

prisiau defnyddwyr (CPI) wedi gostwng i 3.4% ym mis Chwefror, ond roedd dal yn uwch na tharged Banc Lloegr o 2% ar ddiwedd y cyfnod.

**2.2 Rhagolygon cyfraddau llog**

Er bod chwyddiant a thwf cyflogau'r DU yn parhau i fod yn uchel, rhagwelir bod y Gyfradd Banc wedi cyrraedd uchafbwynt o 5.25%. Bydd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr yn dechrau lleihau cyfraddau yn 2024 er mwyn ysgogi economi'r DU ond bydd yn amharod i wneud hynny nes ei bod yn siŵr na fydd unrhyw effeithiau ail rownd parhaus. Disgwylir bod toriadau mewn cyfraddau o Ch3 2024 i isafbwynt o tua 3% erbyn dechrau canol 2026.

**3. Y Strategaeth Fuddsoddi Trysorlys**

**3.1** Bydd gan y CBC gronfeydd buddsoddi sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn y gwariant. Roedd y balans ar 31ain Mawrth 2024 yn £59.8m a gellir gweld y lefelau a ddisgwylir ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn y tabl isod.

**Tabl 1: Crynodeb mantolen a'r rhagolwg**

| | 31.3.23 Gwir £m | 31.3.24 Gwir £m | 31.3.25 Rhagolwg £m | 31.3.26 Rhagolwg £m | 31.3.27 Rhagolwg £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Buddsoddiadau Trysorlys** | **57.1** | **59.8** | **46.6** | **20.5** | **(6.4)** |

**3.2 Amcanion**

Mae Cod CIPFA a Chanllaw LlC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y CBC wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o golledion drwy buddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau. Pan ddisgwylir i falansau cael eu buddsoddi am fwy na blwyddyn, bydd y Cyd- bwyllgor yn anelu i dderbyn dychweliad cyfan sydd yn gyfartal neu'n uwch na chyfradd gyffredinol chwyddiant, er mwyn cynnal grym gwario'r swm a fuddsoddir. Nod y CBC yw bod yn fuddsoddwr cyfrifol a bydd yn ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) wrth fuddsoddi.

**3.3 Modelau busnes**

O dan y safon IFRS 9 newydd mae'r gyfrifeg ar gyfer buddsoddiadau penodol yn dibynnu ar "model busnes" y CBC i'w rheoli. Mae'r CBC yn anelu i ennill gwerth gan ei fuddsoddiadau trysorlys sydd yn cael eu rheoli'n fewnol gyda model busnes

o gasglu llif arian cytundebol ac felly, ble mae'r meini prawf yn cael ei cwrdd, mae'r buddsoddiadau yn dal i gael eu cyfrifo ar gost wedi ei amorteiddio.

### 3.4 Gwrthbartïon cymeradwy

Gall y Cyd- bwyllgor Corfforedig fuddsoddi ei gronfeydd dros ben gyda unrhyw o'r gwrthbartïon yn nhabl 2 isod, yn amodol ar y terfynau arian (fesul gwrthbarti) a'r cyfyngiadau amser a ddangosir.

**Tabl 2: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo a'r terfynau**

| Sector | Terfyn amser | Terfyn gwrthbarti | Terfyn sector |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | 50 mlynedd | Diderfyn | d/b |
| Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill | 25 mlynedd | £5m | Diderfyn |
| Buddsoddiadau â sicrwydd * | 25 mlynedd | £5m | Diderfyn |
| Banciau (ansicredig) * | 13 mis | £3m | Diderfyn |
| Cymdeithasau adeiladu (ansicredig) * | 13 mis | £3m | £6m |
| Darparwyr cofrestredig (ansicredig) * | 5 mlynedd | £3m | £15m |
| Cronfeydd marchnad arian * | d/b | £5m | Diderfyn |

*Rhaid darllen y tabl hwn mewn cysylltiad â'r nodiadau canlynol.

### 3.5 Isafswm Statws Credyd

Dim ond gydag endidau nad yw eu statws credyd hirdymor cyhoeddedig isaf yn is nag A- y gwneir buddsoddiadau'r Trysorlys yn y sectorau a nodir â *. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth o fuddsoddiad pan fo hwnnw ar gael, ac fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbarti. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi yn cael eu gwneud ar sail statws credyd yn unig, mae'r holl ffactorau perthnasol gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

### 3.6 Llywodraeth

Benthyciadau i, a bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warantir gan, lywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol, awdurdodau lleol a banciau datblygol amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau yma yn destun *'bail-in'*, ac yn gyffredinol bychan iawn yw'r risg o ansolfedd, er nad ydynt yn ddi-risg. Bernir nad oes gan fuddsoddiadau gyda Llywodraeth y DU risg credyd oherwydd ei gallu i greu arian ychwanegol ac felly gellir eu gwneud mewn symiau gyda dim cyfyngiad am hyd at 50 mlynedd.

### 3.7 Buddsoddiadau â Sicrwydd

Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u sicrhau ar asedau'r benthyciwr, sy'n cyfyngu'r colledion potensial petai methdaliad. Bydd maint ac ansawdd y diogelwch yn ffactor allweddol yn y penderfyniad buddsoddi. Mae bondiau gorchuddiedig a chytundebau adbrynu o chwith gyda banciau a chymdeithasau adeiladu wedi'u heithrio rhag '*bail-in'.* Lle nad oes statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, ond bod gan y cyfochrog y sicrheir y buddsoddiad arno statws credyd, defnyddir yr uchaf o'r statws credyd cyfochrog a statws credyd y gwrthbarti. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau â sicrwydd a'r buddsoddiadau ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau â sicrwydd.

### 3.8 Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (ansicredig)

Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau'n agored i risg o golli credyd drwy gyfrwng '*bail-in'* petai'r rheoleiddiwr yn penderfynu bod banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler isod am drefniadau sy'n ymwneud â chyfrifon banc gweithredol.

### 3.9 Darparwyr cofrestredig (ansicredig)

Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir, neu a warantir gan, neu sydd wedi'u sicrhau ar asedau darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig, a elwid gynt yn gymdeithasau tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio gan yr Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol (yn Lloegr), Rheoleiddiwr Tai yn yr Alban, Llywodraeth Cymru ac yr Adran ar gyfer y Gymuned (yn Gogledd Iwerddon). Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn debygol iawn o barhau i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

### 3.10 Cronfeydd Marchnad Arian

Cronfeydd cyfun sy'n cynnig hylifedd yr un diwrnod neu fyr rybudd ac anweddolrwydd prisiau isel iawn neu ddim o gwbl trwy fuddsoddi mewn marchnadoedd arian tymor byr. Mae ganddyn nhw'r fantais dros gyfrifon banc o ddarparu gwasgariad ehangach o risgiau buddsoddi, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfa broffesiynol am ffi fach. Er nad oes unrhyw derfyn sector yn berthnasol i gronfeydd marchnad arian, bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cymryd gofal i arallgyfeirio ei fuddsoddiadau hylif dros amrywiaeth o ddarparwyr i sicrhau mynediad at arian parod bob amser.

### 3.11 Cyfrifon banc gweithredol

Gall y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddelio gydag unrhyw fanc yn y DU gyda statws credyd dim is na BBB - a chydag asedau mwy na £25 biliwn, a hynny, er enghraifft, drwy gyfrifon cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnachwyr. Nid yw'r rhain yn cael eu cyfrif fel buddsoddiadau, ond maent yn parhau yn agored i risgiau '*bail-in'*, ac felly bydd y balansau yn cael eu cadw'n is na £900,000 fesul banc. Mae Banc Lloegr wedi datgan petai yna fethiant, y byddai banciau gydag asedau sy'n fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o fod yn destun *'bail-in'* na chael eu gwneud yn fethdalwyr, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddai'r CBC yn gallu parhau i weithredu.

### 3.12 Asesu Risg a Statws Credyd

Mae'r CBC yn monitro'r graddfeydd credyd. Pan fo statws credyd endid yn cael ei israddio, ac yn methu â diwallu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy'n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws credyd rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn "*rating watch negative*" neu "*credit watch negative*") fel y gall ddisgyn islaw'r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy'n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

### 3.13 Agweddau ar enw da

Mae'r Cyd- bwyllgor Corfforedig yn ymwybodol y gallai buddsoddi gyda gwrthbartïon penodol, er ei fod yn cael ei ystyried yn ddiogel o safbwynt ariannol yn unig, ei adael yn agored i feirniadaeth, yn ddilys neu fel arall, a allai effeithio ar ei enw da cyhoeddus, ac felly bydd y risg hon yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.

## 3.14 Gwybodaeth arall ar ddiogelwch buddsoddiadau

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008, 2020 a 2022, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei adlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian y CBC, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi i'r enillion ar fuddsoddiadau ostwng, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

## 3.15 Cyfyngiadau Buddsoddi

Yr uchafswm gellir ei fenthyca i unrhyw un sefydliad (heblaw Llywodraeth y DU) yw £5 miliwn. O ran y cyfyngiad yma bydd grŵp o endidau o dan yr un perchnogaeth yn cael eu trin fel sefydliad unigol.

Mae datguddiadau risg credyd sy'n deillio o fuddsoddiadau ar wahân i'r trysorlys, deilliadau ariannol a balansau sy'n fwy na £500,000 mewn cyfrifon banc gweithredol yn cyfrif yn erbyn y terfynau buddsoddi perthnasol.

Gosodir terfynau hefyd ar reolwyr cronfeydd, buddsoddiadau mewn cyfrifon enwebai broceriaid a gwledydd tramor fel y nodir isod. Nid yw buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfun a banciau datblygu amlochrog yn cyfrif yn erbyn y terfyn ar gyfer unrhyw wlad dramor unigol, gan fod y risg yn amrywio dros lawer o wledydd.

**Tabl 3: Terfynau ychwanegol**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolaeth | £15m fesul rheolwr |
| Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | £15m fesul brocer |
| Gwledydd tramor | £5m fesul gwlad |

**3.16 Rheoli hylifedd**

Mae'r Cyd- bwyllgor Corfforedig yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus. Caiff y rhagolygon eu llunio ar y sail bod benthyca tymor byr yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu ei ymrwymiadau ariannol os oes angen. Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau tymor hir yn cael eu gosod ar sail cynllun ariannol tymor canolig a rhagolwg llif arian y CBC.

Bydd y CBC yn lledaenu ei arian parod hylifol dros o leiaf bedwar darparwr (e.e. cyfrifon banc a chronfeydd marchnad arian) i sicrhau bod mynediad at arian parod yn cael ei gynnal os bydd anawsterau gweithredol mewn unrhyw un darparwr.

# ADRODDIAD I GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

# 21/06/2024

**Teitl:** Adroddiad Alldro a Ffurflen Flynyddol 2023/24

**Awduron:** Dewi A Morgan, Pennaeth Cyllid y CBC (Swyddog Cyllid Statudol)
Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol y CBC

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu sefyllfa alldro terfynol 2023/24 i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd a chael cymeradwyaeth i'r Ffurflen Flynyddol Swyddogol ar gyfer 2023/24.

## 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

**2.1 Nodi a derbyn gwir wariant ac incwm y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 2023/24 fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad 1.**

**2.2 Cael cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor Corfforedig i'r tanwariant yn 2023/24 gael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar gyfer ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.**

**2.3 Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol Swyddogol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 2023/24 (amodol ar Archwiliad Allanol), yn unol â'r amserlen statudol, sef 30 Mehefin 2024. Mae wedi'i gwblhau a'i ardystio'n briodol gan Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd fel Swyddog Cyllid Statudol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (Atodiad 2).**

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1 Rhoi gwybod i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig am ei sefyllfa ariannol ar gyfer 2023/24 a chydymffurfio â'r gofynion statudol yn nhermau cwblhau'r Ffurflen Flynyddol.

**4. CEFNDIR**

4.1 Cafodd y gyllideb wreiddiol ar gyfer 2023/24 ei chymeradwyo gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2023 (cyllideb wreiddiol yn Atodiad 1) gyda newidiadau pellach ar "Adnoddau i Swyddogaethau Statudol" yn cael eu cymeradwyo yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2023 (cyllideb ddiwygiedig yn Atodiad 2).

4.2 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig maes o law.

4.3 Ar ôl archwiliad ac yn dilyn unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen.

**5. GWARIANT AC INCWM 2023/24**

5.1 Mae Atodiad 1 yn dangos dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm fesul pennawd yn erbyn ei gyllideb flynyddol ar gyfer 2023/24, ac mae rhain yn cyfateb â'r ffigyrau yn y Ffurflen Flynyddol a ddangosir yn Atodiad 2.

5.2 Rhagwelwyd tanwariant o £422,846 yn adolygiad mis Medi 2023 ac mae'r sefyllfa alldro net derfynol ar gyfer 2023/24 yn dangos tanwariant pellach o £231,617, i roi tanwariant terfynol o £654,463 ar gyfer 2023/24, a gofynnir am gymeradwyaeth i drosglwyddo hwn i'r gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi. Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2024 eisoes wedi cymeradwyo i £196,840 o'r gronfa hon gael ei defnyddio fel rhan o gyllideb 2024/25.

5.3 Mae'r cynnydd yn y tanwariant ers adolygiad Medi yn bennaf oherwydd derbyniad grant gan Llywodraeth Cymru, llithriad mewn ffioedd ymgynghorwyr allanol a lleihad mewn costau gwasanaethau cefnogol.

<u>Gweithwyr</u>

5.4 Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £324,666. Mae'r gwariant ar is-benawdau y CBC a Thrafnidiaeth yn cynnwys costau secondiad Prif Weithredwr Uchelgais Gogledd Cymru am ddeuddydd yr wythnos, ynghyd â chefnogaeth y Cynorthwyydd Gweithredol am un diwrnod yr wythnos. Mae'r costau cyflogaeth ar y pennawd

Trafnidiaeth hefyd yn cynnwys costau secondiad Rheolwr Rhaglen Gweithredu o Lywodraeth Cymru.

Teithio

5.5 Nid yw'r gyllideb teithio a chynhaliaeth wedi ei ddefnyddio yn 2023/24 sy'n gadael tanwariant o £6,000 am y flwyddyn.

Cyflenwadau a gwasanaethau

5.6 Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £304,254 gyda gwariant yn cynnwys ffioedd Archwilio Cymru, ymgynghorwyr allanol, costau yswiriant ac offer a chyflenwadau.

Gwasanaethau Cefnogol

5.7 Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £52,198 ac mae'n deillio o danwariant ar draws y gwasanaethau cefnogol.

Grant Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

5.8 Ym mis Rhagfyr 2023, derbyniodd y CBC gynnig grant gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac mae £44,483 o hwn wedi ei ddefnyddio i ariannu y gwariant ar y pennawd Trafnidiaeth yn ystod 2023/24. Comisiynwyd yn ogystal ymgynghorydd allanol i wneud rhan o'r gwaith a gan nad oedd yr elfen yma wedi ei gwblhau nes mis Ebrill 2024, bydd yn cael ei ddangos yng nghyfrifon 2024/25.

Cronfa

5.9 Ar 1 Ebrill 2023 roedd £238k yn y gronfa wrth gefn, ac oherwydd y sefyllfa tanwariant ar gyfer 2023/24, nid oedd angen y £80k a ddyrannwyd yn wreiddiol o'r gronfa wrth gefn fel rhan o gyllideb 2023/24. Ar ôl trosglwyddo'r tanwariant o £654k ar gyfer 2023/24 i'r gronfa, roedd balans o £892k ar 31 Mawrth 2024.

**6. CYFRANIADAU PARTNERIAID**

6.1 Mae cyfraniadau'r partneriaid yn cyd-fynd â'r ardoll a sefydlwyd ar gyfer cyllideb 2023/24.

**7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

7.1 Fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd), mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, oherwydd nad yw'r trosiant yn fwy na £2.5m yn 2023/24 baratoi ffurflen flynyddol a rhaid paratoi hwn gan ddilyn arferion priodol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

**8. ATODIADAU**

Atodiad 1 – Sefyllfa Alldro Refeniw Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2023/24.

Atodiad 2 - Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

**Sefyllfa Alldro Refeniw Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2023/24** **Atodiad 1**

| | Cyllideb wreiddiol | | | | Cyllideb ddiwygiedig | | | | Sefyllfa Terfynol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Cyd-Bwyllgor Corfforedig | Cyfanswm Cyllideb | Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) | Cyfanswm Cyllideb | Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) | Cyfanswm Gwariant | Gorwaraint / (Tanwariant) |
| **Gwariant** | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) |
| **Gweithwyr** | | | | | | | | | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 205,290 | 140,980 | 118,490 | 464,760 | 212,400 | 107,060 | 92,630 | 412,090 | 0 | 43,219 | 49,295 | 92,514 | (319,576) |
| Lwfans aelodau lleyg | 0 | 0 | 5,090 | 5,090 | 0 | 0 | 5,090 | 5,090 | 0 | 0 | 0 | 0 | (5,090) |
| **Cyfanswm Gweithwyr** | **205,290** | **140,980** | **123,580** | **469,850** | **212,400** | **107,060** | **97,720** | **417,180** | **0** | **43,219** | **49,295** | **92,514** | **(324,666)** |
| **Teithio** | | | | | | | | | | | | | |
| Teithio a chynhaliaeth | 3,000 | 2,000 | 1,000 | 6,000 | 3,000 | 2,000 | 1,000 | 6,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (6,000) |
| **Cyfanswm Teithio** | **3,000** | **2,000** | **1,000** | **6,000** | **3,000** | **2,000** | **1,000** | **6,000** | **0** | **0** | **0** | **0** | **(6,000)** |
| **Cyflenwadau a gwasanaethau** | | | | | | | | | | | | | |
| Offer a chyfarpar | 4,500 | 3,000 | 0 | 7,500 | 4,500 | 3,000 | 0 | 7,500 | 0 | 1,496 | 0 | 1,496 | (6,004) |
| Cyflenwadau amrywiol | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 3,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 3,000 | 0 | 45 | 94 | 139 | (2,861) |
| Ymgysylltu a chyfarfodydd | 770 | 770 | 3,830 | 5,370 | 770 | 770 | 3,830 | 5,370 | 0 | 0 | 0 | 0 | (5,370) |
| Ffioedd Archwilio Cymru | 0 | 0 | 21,100 | 21,100 | 0 | 0 | 21,100 | 21,100 | 0 | 0 | 5,140 | 5,140 | (15,960) |
| Ymgynghorwyr allanol | 132,500 | 80,000 | 10,000 | 222,500 | 132,500 | 132,670 | 10,000 | 275,170 | 0 | 0 | 4,911 | 4,911 | (270,259) |
| Yswiriant | 7,500 | 7,500 | 0 | 15,000 | 7,500 | 7,500 | 0 | 15,000 | 5,600 | 5,600 | 0 | 11,200 | (3,800) |
| **Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau** | **146,270** | **92,270** | **35,930** | **274,470** | **146,270** | **144,940** | **35,930** | **327,140** | **5,600** | **7,141** | **10,145** | **22,886** | **(304,254)** |
| **Gwasanaethau Cefnogol** | | | | | | | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 0 | 0 | 26,610 | 26,610 | 0 | 0 | 26,610 | 26,610 | 0 | 0 | 16,563 | 16,563 | (10,047) |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 7,500 | 7,500 | 15,000 | 30,000 | 7,500 | 7,500 | 15,000 | 30,000 | 0 | 0 | 19,271 | 19,271 | (10,729) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 6,880 | 6,280 | 17,760 | 30,920 | 6,880 | 6,280 | 17,760 | 30,920 | 0 | 0 | 6,264 | 6,264 | (24,656) |
| Technoleg Gwybodaeth | 2,310 | 1,540 | 3,120 | 6,970 | 2,310 | 1,540 | 3,120 | 6,970 | 0 | 0 | 204 | 204 | (6,766) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol** | **16,690** | **15,320** | **62,490** | **94,500** | **16,690** | **15,320** | **62,490** | **94,500** | **0** | **0** | **42,302** | **42,302** | **(52,198)** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **371,250** | **250,570** | **223,000** | **844,820** | **378,360** | **269,320** | **197,140** | **844,820** | **5,600** | **50,360** | **101,742** | **157,702** | **(687,118)** |
| Grant Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | (44,483) | 0 | **(44,483)** | (44,483) |
| Llog | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | (2,862) | **(2,862)** | (2,862) |
| Cyfraniad o gronfeydd | 0 | 0 | (80,000) | **(80,000)** | 0 | 0 | (80,000) | **(80,000)** | 0 | 0 | 0 | **0** | **80,000** |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **371,250** | **250,570** | **143,000** | **764,820** | **378,360** | **269,320** | **117,140** | **764,820** | **5,600** | **5,877** | **98,880** | **110,357** | **(654,463)** |

| | Cynllunio Strategol | Swyddogaethau eraill | Cyfanswm Ardoll | Cynllunio Strategol | Swyddogaethau eraill | Cyfanswm Ardoll | Cynllunio Strategol | Swyddogaethau eraill | Cyfanswm Ardoll | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) |
| **Cyfraniadau Partneriaid drwy ardoll** | | | | | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (60,330) | (66,400) | (126,730) | (60,330) | (66,400) | (126,730) | (60,330) | (66,400) | (126,730) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (50,790) | (53,840) | (104,630) | (50,790) | (53,840) | (104,630) | (50,790) | (53,840) | (104,630) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (83,220) | (88,240) | (171,460) | (83,220) | (88,240) | (171,460) | (83,220) | (88,240) | (171,460) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (55,390) | (70,290) | (125,680) | (55,390) | (70,290) | (125,680) | (55,390) | (70,290) | (125,680) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (36,870) | (39,080) | (75,950) | (36,870) | (39,080) | (75,950) | (36,870) | (39,080) | (75,950) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (71,430) | (75,720) | (147,150) | (71,430) | (75,720) | (147,150) | (71,430) | (75,720) | (147,150) | 0 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) | (13,220) | | (13,220) | (13,220) | | (13,220) | (13,220) | | (13,220) | 0 |
| **Cyfanswm Cyllideb Incwm** | **(371,250)** | **(393,570)** | **(764,820)** | **(371,250)** | **(393,570)** | **(764,820)** | **(371,250)** | **(393,570)** | **(764,820)** | **0** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 31/03/23** | **238,097.78** |
| **Tanwariant 2023/24** | 654,462.61 |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 31/03/24** | **892,560.39** |

# Ffurflen Flynyddol Cydbwyllgorau Llai yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2024

## Datganiadau cyfrifyddu 2023-24 ar gyfer:

**Enw'r Pwyllgor:** **Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd**

| | Diwedd y flwyddyn | | Nodiadau ac arweiniad |
|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2023 (£)** | **31 Mawrth 2024 (£)** | **Dylech dalgrynnu'r holl ffigyrau i'r £ agosaf.** **Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag gan gofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.** |
| **Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau** | | | |
| **1.** 1. Balansau a ddygwyd ymlaen | 0 | 238,098 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol. |
| **2.** (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll | 362,260 | 764,820 | Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff. |
| **3.** (+) Cyfanswm derbynebau eraill | 0 | 47,344 | Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw. |
| **4.** (-) Costau staff | -61,664 | -92,514 | Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, lwfansau trethadwy, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a chostau terfynu. Eithriwch adalu mân dreuliau. |
| **5.** (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf | 0 | 0 | Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyca allanol (os o gwbl). |
| **6.** (-) Cyfanswm taliadau eraill | -62,498 | -65,188 | Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (llinell 5). |
| **7.** (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 238,098 | 892,560 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) – (4+5+6). |
| **Datganiad o falansau** | | | |
| **8.** (+) Dyledwyr | 230,380 | 294,873 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Rhowch werth dyledion sy'n ddyledus i'r Pwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **9.** (+) Cyfanswm arian a buddsoddiadau | 131,880 | 852,363 | **Yr holl gyfrifon:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol ac adnau, daliadau arian parod a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn gytuno â'r balans llyfr arian parod wedi'i gymodi yn unol â'r cysoniad banc. |
| **10.** (-) Credydwyr | -124,162 | -254,676 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Rhowch werth yr arian sy'n ddyledus gan y Pwyllgor (ac eithrio benthyca) ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **11.** (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 238,098 | 892,560 | **Dylai cyfanswm balansau gydradd llinell 7 uchod:** Rhowch gyfanswm (8 + 9-10). |
| **12.** Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor | 0 | 0 | Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiad yr holl asedau sefydlog ac unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth. |
| **13.** Cyfanswm benthyca | 0 | 0 | Y balans cyfalaf sy'n weddill ar 31 Mawrth o'r holl fenthyciadau gan drydydd partïon (gan gynnwys PWLB). |

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod fel aelodau'r Pwyllgor ein cyfrifoldeb dros sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, mewn perthynas â'r datganiadau cyfrifeg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, ein bod wedi gwneud y canlynol:

| | Cytûn? | | Mae 'IE' yn golygu bod y Pwyllgor wedi gwneud y canlynol: | Cyf PG |
|---|---|---|---|---|
| | **Ie** | **Na*** | | |
| **1.** Rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:<br>• rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a<br>• paratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. | Ie | | Mae'n pennu ei gyllideb yn briodol ac yn rheoli ei harian ac yn paratoi ac yn cymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel y'u rhagnodir gan y gyfraith. | 6, 12 |
| **2.** Cynnal system ddigonol o reolaeth fewnol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac wedi adolygu ei effeithiolrwydd. | Ie | | Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am ddiogelu'r arian a'r adnoddau cyhoeddus wrth ei wefru. | 6, 7 |
| **3.** Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ein hunain nad oes unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Pwyllgor gynnal ei fusnes neu ei sefyllfa ariannol.. | Ie | | Dim ond pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac mae wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau yn y ffordd y mae wedi gwneud hynny. | 6 |
| **4.** Darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. | Ie | | Wedi rhoi'r cyfle i bob person sydd â diddordeb archwilio cyfrifon y Pwyllgor fel y nodir yn yr hysbysiad archwilio. | 6, 23 |
| **5.** Cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Pwyllgor a chymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle bo angen. | Ie | | Ystyried y risgiau ariannol ac eraill y mae'n eu hwynebu wrth weithredu'r Pwyllgor ac mae wedi delio â nhw'n iawn. | 6, 9 |
| **6.** Cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o'r cofnodion cyfrifeg a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi derbyn adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | Ie | | Wedi'i drefnu i berson cymwys, sy'n annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ynghylch a yw'r rhain yn diwallu anghenion y Pwyllgor | 6, 8 |
| **7.** Ystyried a yw unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, sy'n digwydd naill ai yn ystod neu ar ôl diwedd y flwyddyn, yn cael effaith ariannol ar y Pwyllgor a, lle bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu. | Ie | | Datgelu popeth y dylai ei gael am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar ôl diwedd y flwyddyn os yw'n berthnasol. | 6 |
| **8.** Cymryd camau priodol ar yr holl faterion a godwyd mewn adroddiadau blaenorol o archwilio mewnol ac allanol. | Ie | | Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â materion/gwendidau a ddygir i'w sylw gan yr archwilwyr mewnol ac allanol. | 6, 8, 23 |

* Rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar ddalen ar wahân ar gyfer pob ymateb 'na' a roddir; a disgrifio pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

## Nodiadau datgelu ychwanegol*

| Darperir y wybodaeth ganlynol i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y datganiad cyfrifeg a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
|---|
| 1. |
| 2. |
| 3. |

* Cynhwyswch yma unrhyw ddatgeliadau ychwanegol y mae'r Pwyllgor o'r farn eu bod yn angenrheidiol i gynorthwyo dealltwriaeth y darllenydd o'r datganiad cyfrifeg a/neu'r datganiad llywodraethu blynyddol.

## Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifeg a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

| **Ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol** | **Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor** |
|---|---|
| Rwy'n ardystio bod y datganiadau cyfrifeg a gynhwysir yn y Ffurflen Flynyddol hon yn cyflwyno sefyllfa ariannol y Pwyllgor 'i incwm a'i wariant, neu gyflwyno derbynebau a thaliadau yn briodol, yn ôl y digwydd, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. | Rwy'n cadarnhau bod y datganiadau cyfrifeg hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan funud:<br>**Cyfeirnod cofnodion:** |
| **Llofnod y Swyddog Cyllid Cyfrifol:**  | **Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:** |
| **Enw: Dewi Aeron Morgan** | **Enw:** |
| **Dyddiad: 12/06/2024** | **Dyddiad:** |

# Adroddiad archwilio mewnol blynyddol i:

| **Enw'r Pwyllgor:** | **Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd** |
|---|---|

Mae archwiliad mewnol y Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dethol o gydymffurfiad â gweithdrefnau a rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Mae'r archwiliad mewnol wedi'i gynnal yn unol ag anghenion y Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, crynhoir casgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Isod mae amcanion rheolaeth fewnol a'r casgliadau archwilio mewnol ynghylch a oedd yr amcanion rheoli canlynol yn cael eu cyflawni trwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Pwyllgor.

| | **Cytûn?** | | | | **Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen os cyflwynir adroddiad archwilio mewnol manwl i'r Pwyllgor)** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ie** | **Na*** | **Amh** | **Heb ei gynnwys*** | |
| **1.** Mae llyfrau cyfrif priodol wedi cael eu cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn. | ✓ | | | | Mewnosodwch destun |
| **2.** Mae rheoliadau ariannol wedi'u bodloni, cafodd taliadau eu cefnogi gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a chyfrifwyd TAW yn briodol. | ✓ | | | | Mewnosodwch destun |
| **3.** Asesodd y Pwyllgor y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygu digonolrwydd trefniadau i reoli'r rhain. | ✓ | | | | Mewnosodwch destun |
| **4.** Roedd y gofyniad praesept/ardoll / galw adnoddau blynyddol yn deillio o broses gyllidebol ddigonol, monitro cynnydd yn erbyn y gyllideb yn rheolaidd, ac roedd cronfeydd wrth gefn yn briodol. | ✓ | | | | Mewnosodwch destun |
| **5.** Derbyniwyd incwm disgwyliedig yn llawn, yn seiliedig ar brisiau cywir, wedi'i gofnodi'n briodol a'i fancio'n brydlon, a chyfrifwyd TAW yn briodol. | ✓ | | | | Mewnosodwch destun |
| **6.** Cefnogwyd taliadau arian mân yn iawn gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a chyfrifwyd TAW yn briodol. | | | ✓ | | Mewnosodwch destun |
| **7.** Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau munud, a rhoddwyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. | ✓ | | | | Mewnosodwch destun |
| **8.** Roedd cofrestrau asedau a buddsoddi yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n iawn. | | | ✓ | | Mewnosodwch destun |

| | Cytûn? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen os cyflwynir adroddiad archwilio mewnol manwl i'r Pwyllgor) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ie | Na* | Amh | Heb ei gynnwys** | |
| **9.** Gwnaed cysoniadau cyfrif banc cyfnodol a diwedd blwyddyn yn briodol. | ✓ | | | | Mewnosodwch destun |
| **10**. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail gyfrifyddu gywir (derbynebau a thaliadau/incwm a gwariant), yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u hategu gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a lle bo'n briodol, cofnodwyd dyledwyr a chredydwyr yn briodol. | ✓ | | | | Mewnosodwch destun |

| **Ar gyfer unrhyw ardaloedd risg a nodwyd gan y Pwyllgor (rhestrwch unrhyw ardaloedd risg eraill isod neu ar daflenni ar wahân os oes angen) bod rheolaethau digonol yn bodoli:** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytûn? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen os cyflwynir adroddiad archwilio mewnol manwl i'r Pwyllgor) |
| | Ie | Na* | Amh | Heb ei gynnwys** | |
| **12.** | | | | | |
| **13.** | | | | | |
| **14.** | | | | | |

* Os mai 'na' yw'r ymateb, nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid mewn rheolaeth a nodwyd (ychwanegwch daflenni ar wahân os oes angen).

** Os na chynhwysir yr ymateb, nodwch pryd y gwnaed y gwaith archwilio mewnol diweddaraf yn y maes hwn a phryd y bwriedir gwneud y gwaith archwilio mewnol nesaf, neu os nad oes angen sylw, rhaid i archwiliad mewnol egluro pam lai.

Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn tynnu sylw at sylw'r Pwyllgor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Pwyllgor dyddiedig Mehefin 2024.

## Cadarnhad archwilio mewnol

Rwy'n cadarnhau nad ydw i, fel archwilydd mewnol y Pwyllgor, wedi bod yn rhan o rôl reoli neu weinyddol o fewn y Pwyllgor (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r Pwyllgor yn ystod blynyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24. Rwyf hefyd yn cadarnhau nad oes gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â fy apwyntiad.

| |
|---|
| **Enw'r person a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: Bleddyn Rhys** |
| **Llofnod y person a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:** *Bleddyn Rhys* |
| **Dyddiad: 12/06/2024** |

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

21 Mehefin, 2024

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Diweddariad: Swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Trosglwyddo i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig |
| **AWDUR:** | Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr y Cyngor Arweiniol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd<br>Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru a Phrif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno diweddariad pellach ar gynnydd i sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) gan ymateb i'w swyddogaethau statudol a chyflawni trosglwyddiad arfaethedig swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r CBC.

1.2. Atgoffa'r bwrdd o'r trefniant presennol i ryddhau amser y Cyfarwyddwr Portffolio am ddau ddiwrnod yr wythnos i ymgymryd â rôl y Prif Weithredwr Dros Dro a chynnig cyfnod estynedig ar gyfer y trefniadau interim hyd at 31 Hydref.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. I dderbyn yr adroddiad ar y diweddariad cynnydd ar y gwaith i sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac ymateb i'r tasgau sy'n ofynnol gan ei swyddogaethau statudol. (***Atodiad 1***)

2.2. Derbyn y cynllun wedi'i ddiweddaru ynghyd a'r dyddiad diwygiedig o'r 1af o Dachwedd ar gyfer trosglwyddo Cynllun Twf Gogledd Cymru i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

2.3. Cymeradwyo'r trefniadau interim i ryddhau amser y Cyfarwyddwr Portffolio am ddau ddiwrnod yr wythnos i ymgymryd â rôl y Prif Weithredwr Dros Dro a'i ymestyn hyd at 31 Hydref, 2024. Bydd yr holl gostau cyflogaeth a chostau cysylltiedig yn parhau i gael ei dalu gan CBC y Gogledd.

2.4. Gofyn am adroddiad pellach ar gynnydd yn y broses drosglwyddo a monitro o'r amserlen.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Ym mis Rhagfyr 2021/Ionawr 2022, bu'r Cabinet a Phwyllgorau Gwaith ym mhob un o'r chwe Awdurdod Lleol gytuno, mewn egwyddor, y dylid trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru drwy gytundeb dirprwyo i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae'r fframwaith statudol o sefydlu'r CBC yn golygu bod angen symud ymlaen gyda'r trosglwyddiad arfaethedig. Mae angen cymeradwyaeth gan sefydliadau partner a llywodraethau cyn y gellir trosglwyddo.



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

3.2. Gosodwyd 1af o Orffennaf fel dyddiad targed amodol ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Fodd bynnag, roedd y dyddiad hwn yn amodol ar y sail y gallai sawl ffactor effeithio arno, gan gynnwys yr angen am gytundeb partner a llywodraethau i drosglwyddo'r Cynllun Twf; gofynion penderfyniadau ac amserlenni; cyfyngiadau capasiti mewnol ac ystyriaethau TUPE. Mae yna benderfyniadau allweddol y mae angen eu gwneud i gyflawni'r trosglwyddiad a allai arwain at rai meysydd trosglwyddo yn cael eu gwneud yn ystod cyfnod yr Hydref 2024. Ystyrir nad oes modd cyflawni'r dyddiad trosglwyddo arfaethedig ar 1af o Orffennaf, 2024. Mae'r adroddiad hwn a'r penderfyniadau sy'n ofynnol yn nodi'r cynllun a'r amserlenni diwygiedig.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Sefydlwyd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig drwy statud ac mae angen sefydlu ystod o ofynion llywodraethu cyfreithiol. Mae yna ddyletswydd statudol i gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol a Chynllun Datblygu Strategol rhanbarthol. Bydd y tablau amser ar gyfer mabwysiadu'r cynlluniau hyn yn cael eu sefydlu a'u cytuno gyda Llywodraeth Cymru, ond maent bellach ar gychwyn.

4.2. Mae’r cynnydd hyd yn hyn wedi'i gyflawni drwy’r Prif Weithredwr rhan-amser dros dro, yn ogystal, mae Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Monitro o Gyngor Gwynedd wedi’u penodi i ymgymryd a’r swyddogaethau hyn o fewn y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae gwasanaeth cyfreithiol ac ariannol yn cael ei ddarparu gan Gyngor Gwynedd. Y bwriad yw parhau gyda'r trefniadau hyn i gefnogi'r broses drosglwyddo.

4.3. Ym mis Mawrth, cymeradwyodd y Bwrdd y trefniant i ryddhau'r Cyfarwyddwr Portffolio, Alwen Williams, i ymgymryd â rôl Prif Weithredwr Dros Dro y CBC am ddau ddiwrnod yr wythnos tan 30 Mehefin, 2024. Roedd y trefniant estynedig hwn ar y sail y byddai ymgynghoriad ffurfiol TUPE gydag gweithwyr y Swyddfa Rheoli Portffolio wedi’i gwblhau a throsglwyddiad a phenodiad Alwen Williams fel Prif Weithredwr y CBC yn dechrau o’r 1af Gorffennaf, 2024. Roedd hyn yn seiliedig ar y trosglwyddiad yn cael ei gwblhau ar y 1af o Orffennaf a fyddai wedi sbarduno'r trosglwyddiad staff i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

4.4. Nodwyd ym mis Mawrth bod angen cwblhau gwaith sylweddol i sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, gyda diwydrwydd dyladwy a sylw agos wrth ymgymryd â'r trosglwyddiad er mwyn sicrhau nad oedd effaith ar ansawdd cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru na gwaith y Bwrdd Uchelgais Economaidd a'i swyddogion yn ystod y trosglwyddiad.

4.5. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ddarostyngedig i ddyletswyddau mwy cyffredinol awdurdodau lleol, megis y Ddeddf Cydraddoldeb, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, safonau iaith o dan Fesur y Gymraeg 2011, a deddfwriaeth arall, yn yr un modd ag awdurdodau lleol.

4.6. Mae swyddogaethau a threfniant partneriaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi'u nodi ar hyn o bryd yng Nghytundeb Llywodraethu 2 ("GA2"). Mae hyn hefyd yn cynnwys y trefniadau llywodraethu ac trefniadau hirdymor ar gyfer cefnogi'r Cynllun Twf a'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn ariannol. Bydd trosglwyddo’r swyddogaethau hyn, ac yn benodol y Cynllun Twf, yn fater i'r awdurdodau lleol i'w benderfynu. Rhagwelir y byddai'r Cynllun Twf yn cael ei drosglwyddo i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gan gynnal y trefniadau ariannol i gefnogi'r Cynllun Twf. Cydnabyddir y bydd angen datblygu fframwaith llywodraethu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fel rhan o'r trosglwyddiad i adlewyrchu'r trefniadau yn GA2, ond hefyd i adeiladu ar y profiad o gyflawni'r Cynllun Twf. Mae cyfleoedd hefyd sy'n deillio o'r model CBC y mae angen eu hystyried a'u manteisio arnynt.

4.7 Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig bŵer statudol i ddarparu ar gyfer lles economaidd y rhanbarth. Mae'r swyddogaeth hon yn cyd-fynd â phwerau datblygu economaidd y Cynghorau. Mae sut, fel rhan o ddatblygiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig, y bydd angen i'r swyddogaethau

hyn weithio'n rhanbarthol yn fater i'w cyd-ddatblygu a'u cytuno gan bartneriaid rhanbarthol. Gellir datblygu'r rôl ehangach hon mewn partneriaeth â'r Cynghorau a'r rhanddeiliaid unwaith y trosglwyddwyd y Cynllun Twf. Mae angen cydnabod hefyd bod y prif penderfyniadau gwreiddiol 'mewn egwyddor' wedi'u gwneud pan oedd cysyniad y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dal i gael ei ddatblygu. Felly, bydd yr union fodel ar gyfer y trefniadau trosglwyddo hefyd yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r gwaith hwn.

Cynnydd yn erbyn y cynllun ac amserlen ddiwygiedig ar gyfer y trosglwyddiad

4.8. Mae dyddiad diwygiedig wedi'i bennu, sy'n ceisio sicrhau'r cymeradwyaethau angenrheidiol i drosglwyddo'r Cynllun Twf a'i gyllid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig o'r 1af o Dachwedd 2024.

4.9. Er mwyn trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, gan gynnwys y Cynllun Twf a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, sefydlwyd pedair ffrwd gwaith annibynnol (***Atodiad 2***). Mae pob ffrwd gwaith wedi datblygu rhaglen waith ac amserlen gytunedig i gyflawni trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae Bwrdd Prosiect Gweithredol CBC yn cyfarfod yn wythnosol i oruchwylio'r ffrydiau gwaith a sicrhau bod y cerrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni gyda'r risgiau allweddol yn cael eu nodi a'u rheoli. Mae swyddogion o'r Swyddfa Rheoli Portffolio a Chyngor Gwynedd yn cael eu cynrychioli ar y bwrdd prosiect.

4.10. Mae adnodd gweithredu ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi bod ar waith ers mis Ionawr, trwy secondiad gan Lywodraeth Cymru. Mae'r trefniant hwn bellach wedi dod i ben, ac mae model adnoddau amgen yn cael ei ddylunio i sicrhau y gellir adnabod adnoddau priodol i reoli'r trefniadau pontio. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn bodloni disgwyliadau gweithredol arferol busnes, cefnogi'r Prif Weithredwr a rheoli'r cynnydd yng ngweithgareddau cydymffurfio Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae cymorth hefyd yn cael ei ddarparu drwy'r Swyddog 151 a Swyddog Monitro y Cyd-bwyllgor Corfforedig a thimau Cyfreithiol a Chyllid Cyngor Gwynedd.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Bydd costau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo swyddogaethau i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gysylltiedig yn bennaf ag amser swyddogion, gwariant cyfreithiol ac ariannol. Bydd cyllid yn cael ei dynnu o gyllidebau presennol y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd. Bydd cymorth cyfreithiol, Adnoddau Dynol, Cyllid, TG a Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei ddarparu drwy adnoddau Cyngor Gwynedd.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae'r adroddiad yn nodi ar lefel uchel yr hyn a gynigir.

6.2. Mae'r Cynllun Twf yn bartneriaeth ffurfiol rhwng Llywodraethau'r DU a Chymru a'r 6 awdurdod cyfansoddol. Mae'n seiliedig ar bortffolio ac mae cyllid yn cael ei dynnu i lawr drwy lythyr cyllido blynyddol ffurfiol sy'n gytundeb grant a wnaed gan yr awdurdod lletya ar ran y 10 partner arwyddedig i Gytundeb Llywodraethu 2 ond yn bennaf y 6 Cyngor Cyfansoddol. Mae rhyddhau cyllid ar gyfer unrhyw gyfnod yn amodol ar berfformiad gweithrediad y Cynllun Twf a gall y Llywodraethau ei ddal yn ôl.

6.3. Mae nifer o faterion llywodraethu a chyfreithiol y mae angen eu rheoli fel rhan o'r cyfnod pontio. Mae'r rhain yn cael eu hamlygu yn ***Atodiad 2***.

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Diweddariad: Cynnydd ar sefydliad Cyd-bwyllgor Corfforedig |
| Atodiad 2: | Ffrydiau Gwaith: Trosglwyddo Cynllun Twf, y cyllid a swyddogion y Swyddfa Rheoli Portffolio i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig |

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Rwyf wedi bod yn cynghori ar y prosiect yma ac ar gynnwys yr adroddiad. Mae'r adroddiad yn darparu crynodeb briodol o'r camau a materion sydd angen eu cyfarch er gwireddu y prosiect trosglwyddo. Er fod y penderfyniad i drosglwyddo y Cynllun Twf wedi ei gadw yn ôl i'r Cynghorau yng nghytundeb GA2 bydd y CBC barti cyflawn i'r cytundeb olynol. O ganlyniad bydd y CBC yn chwarae rhan allweddol yn dylunio a chytuno y model ar gyfer gweithredu y Cynllun Twf wedi'r trosglwyddiad. Er ei bod yn hanfodol fod elfennau o GA2 yn benodol o amgylch yr ariannu er enghraifft yn aros yn gyson mae lle hefyd i ystyried y cyfleon a geir i adolygu rhai o'r gofynion yn GA2. Mae hefyd angen ystyried y fframwaith CBC all gynnig opsiynau amgen yn arbennig o amgylch llywodraethu ac ymwneud budd -ddeiliaid. Mae'r rhain yn faterion y bydd angen eu datblygu cyfathrebu a sefydlu fel rhan o'r broses."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae'r adroddiad yn egluro'r rhesymau dros yr angen am estyniad pellach i'r amserlen ar gyfer cyflawni trosglwyddiad arfaethedig swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r CBC a credaf fod y cyfiawnhad yn glir. Mae parhau'r trefniant i ryddhau amser y Cyfarwyddwr Portffolio am ddau ddiwrnod yr wythnos i ymgymryd â rôl y Prif Weithredwr Dros Dro tan 31 Hydref yn gam synhwyrol a phragmataidd. Nid oes gennyf felly wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol – bydd y costau yn dod o gyllidebau presennol ac mae'n hanfodol fod y camau priodol yn cael eu cymryd yn gywir a chynhwysfawr o fewn y capasiti sydd ar gael."

# ATODIAD 1

**CYNLLUN TRAFNIDIAETH RANBARTHOL (RTP)**

Fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021, un o swyddogaethau statudol Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) yw datblygu Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol.

Ar 25 o Fawrth, 2024 penodwyd Arup gan Uchelgais Gogledd Cymru ar ran Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd i ddarparu cymorth ymgynghori ar ei Gynllun Trafnidiaeth Ranbarthol a'i Gynllun Datblygu Strategol.

Amlygwyd yng nghais Arup eu profiad cadarn o baratoi sylfaen dystiolaeth ar gyfer creu cynlluniau lleol a chenedlaethol. Roedd eu cynnig yn arddangos eu cryfder a'r hygrededd gallent ddarparu wrth gefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, a sicrhau synergeddau cryf rhwng ei gynlluniau. Mae hyn yn adeiladu ar eu gwaith gyda Chomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, Cynlluniau Ynni Ardal Leol, a safleoedd datblygu strategol. Yn ogystal, maent wedi cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddrafftio Canllawiau'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol, wedi llywio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, ac wedi datblygu papurau thematig ar gyfer Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Gwnaethant hefyd roi cyngor ar y fersiwn ddiweddaraf o WelTAG a bu iddynt weithredu fel ymgynghorwyr technegol i'r Grŵp Cynghori ar Ddatblygu Seiliedig ar Leoedd, a gyd-gadeiriwyd gan y Cynghorydd Llinos Medi.

Hyd yma, mae'r gwaith a gwblhawyd gan Arup yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o gynlluniau, data a thystiolaeth, darparu papurau cynghori ar fethodoleg, datblygu ac asesu opsiynau cychwynnol, ymgymryd â chamau cynnar asesiadau effaith statudol, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gynnal gweithdai ar gyfer aelodau a swyddogion. Drwy weithio ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru a swyddogion trafnidiaeth ranbarthol mae Arup wedi casglu gwybodaeth berthnasol ac wedi profi syniadau cychwynnol ynghylch y fethodoleg a'r opsiynau ar gyfer ymyriadau i'w cynnig yn y Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol.

Fel rhan o'r comisiwn, mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni a'i ddarparu yn cynnwys:

1. Adnabod gofynion a dadansoddi bwlch
2. Papur cynghori ar fethodoleg asesu
3. Papur cynghori ar fethodoleg asesu carbon
4. Papur cynghori ar fethodoleg asesu effaith
5. Papur cynghori ar Offeryn Hygyrchedd yr Adran Drafnidiaeth (Llywodraeth Prydain)
6. Data cefndir a phapur ymchwil
7. Adolygiad o'r Cynllun Datblygu
8. Papur opsiynau i ddatblygu cynllun
9. Asesiad Lles Integredig Cychwynnol
10. Adroddiad cychwynnol ar Asesu Allyriadau
11. Adroddiad drafft - Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig
12. Adroddiad drafft - Cyn-Sgrinio yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
13. Mapio a phecyn gweledol o System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS)
14. Ymgysylltu â rhanddeiliaid - pecyn gweithdai

Cam nesaf y gwaith:

Bydd y cam nesaf o'r gwaith yn cynnwys:

1. Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig
2. Cyn-Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

3. Adolygu a chyfuno sylwadau rhanddeiliaid rhanbarthol ar y polisïau, rhaglenni drafft
4. Creu cynllun prosiect gronynnog, gan adeiladu ar Gynllun Gweithredu gwreiddiol Gogledd Cymru, ar gyfer creu'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol. Bydd hwn i nodi llinell amser fanwl i gwblhau'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol
5. Cynhyrchu Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
6. Arddangos dangosfwrdd digidol Fuse sydd gan Arup (sef llyfrgell a dangosfwrdd ar-lein o ddata prosiect ar gyfer rhannu dogfennau, mapiau a gwybodaeth, gyda gallu sydd yn seiliedig ar Ddeallusrwydd Artiffisial)

Disgwylir i'r cam hwn o'r gwaith ddod i ben erbyn canol mis Gorffennaf.

Yn dilyn cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, rhagwelir y bydd yr Asesiad Llesiant Integredig terfynol a'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol yn cael ei gyhoeddi ddiwedd Haf 2025. Bydd hyn yn digwydd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar gynllun drafft ac asesiadau statudol yn Hydref 2024.

Rydym yn bwriadu parhau i weithio gydag Arup i ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol a'r gofynion cysylltiedig hyd at eu cwblhau erbyn y Gwanwyn 2025.

**CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL (SDP)**

Mae gofyniad i gyflwyno Cytundeb Cyflawni i Lywodraeth Cymru ddiwedd 2024. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn cynnwys dwy ran:

- Amserlen ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Strategol
- Cynllun Cynnwys y Gymuned

Mae'r Cytundeb Cyflawni yn ddogfen bwysig gan ei fod yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi cynlluniau, ac yn adnabod pwy all gymryd rhan yn y broses, ar ba gam a'r dulliau ymgynghori. Mae hefyd yn esbonio sut y bydd ymatebion i ymgynghoriadau ar y cynllun yn cael eu hystyried.

Er bod y gwaith i ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol wedi'i flaenoriaethu, mae cyfle sylweddol i gymryd mewnwelediadau o ddatblygiad y Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol i'r Cynllun Datblygu Strategol, a sicrhau bod y ddau yn datblygu fel cynlluniau strategol gyda'i gilydd.

**PARTH BUDDSODDI – SIR Y FFLINT A WRECSAM**

Mae Parthau Buddsoddi wedi'u cynllunio i ddarparu dulliau y gellir eu defnyddio gyda hyblygrwydd ac ymreolaeth i hybu potensial arloesi'r Deyrnas Unedig, i dyfu cryfderau mewn diwydiannau allweddol ac i yrru twf, a lefelu cymunedau ledled y wlad.

Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd Datganiad Trysorlys Ei Fawrhydi'r Hydref bod Sir y Fflint a Wrecsam wedi'i ddynodi'n Barth Buddsoddi a dylid cyd-ddatblygu'r cynnig rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol a'i gyflawni gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

Y sefyllfa bresennol:

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn ceisio caffael cymorth ymgynghori profiadol i ganolbwyntio ar arwain a darparu cefnogaeth ymarferol i bartneriaid Awdurdodau Lleol Sir y Fflint a Wrecsam i fodloni proses Porth Trysorlys Ei Fawrhydi a chynhyrchu cynnig sy'n datgloi cyfle ariannu'r Parth Buddsoddi, o £160miliwn mewn cyfanswm dros gyfnod o 10 mlynedd.

Yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, ni all y broses ffurfiol o gyd-ddatblygu gyda Llywodraeth y DU fynd yn ei flaen yn ffurfiol, fodd bynnag, bydd swyddogion yn parhau i ddatblygu'r gwaith gyda chymorth ymgynghorwyr mewn paratoad ar gyfer cyflwyno pan fydd y Llywodraeth newydd wedi'i ffurfio.

**TROSGLWYDDO SWYDDOGAETHAU BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD I'R CBC**

Mae Bwrdd Prosiect Gweithredol CBC wedi'i sefydlu, sy'n cynnwys uwch swyddogion ac arweinwyr ffrwd waith o'r Swyddfa Rheoli Portffolio a Chyngor Gwynedd. Mae'r bwrdd prosiect yn goruchwylio pedair ffrwd gwaith annibynnol a sefydlwyd i alluogi trosglwyddo swyddogaethau o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, gan gynnwys y Cynllun Twf a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i'r CBC. Mae'r bwrdd prosiect yn cyfarfod yn wythnosol i oruchwylio'r ffrydiau gwaith a sicrhau bod cerrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni gyda risgiau allweddol yn cael eu nodi a'u rheoli.

Mae'r pedair ffrwd waith yn cynnwys:

- Cyfreithiol a Llywodraethu - Sicrhau bod y cytundebau a'r caniatadau angenrheidiol sydd eu hangen i gyflawni'r trosglwyddiad yn cael eu sicrhau a'u cytuno. Sicrhau bod y trefniadau a'r cytundebau llywodraethu angenrheidiol mewn lle o fewn y CBC ar gyfer cyflawni'r Cynllun Twf, gan gynnwys rôl ymgynghorwyr o fewn y Bwrdd Uchelgais Economaidd.
- Pobl ac Adnoddau Dynol - Bwrw ymlaen gyda'r broses TUPE, gan gynnwys ymgynghori gyda staff, sicrhau bod polisïau a phrotocolau staff mewn lle er mwyn sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus i'r CBC.
- Cyllid, Prosesau a Systemau - Galluogi trosglwyddo cyllid y Cynllun Twf a threfniadau ariannu prosiectau, yn ogystal â sicrhau bod pob proses a system gweithredol mewn lle ar gyfer trosglwyddo'r Swyddfa Rheoli Portffolio i'r CBC.
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu - Sicrhau bod staff a rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cyfathrebu â nhw a'u cynnwys drwy gydol y broses.

Gosodwyd y 1af o Orffennaf fel dyddiad targed amodol ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Fodd bynnag, roedd y dyddiad hwn yn amodol ar y sail y gallai sawl ffactor effeithio arno, gan gynnwys yr angen am gytundeb partner a llywodraethau i drosglwyddo'r Cynllun Twf; gofynion penderfyniadau ac amserlenni; cyfyngiadau capasiti mewnol ac ystyriaethau TUPE.

Mae cynnydd da yn erbyn pob ffrwd gwaith, fodd bynnag, mae'r amserlen i sicrhau cymeradwyaeth gan holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais Economaidd a Llywodraethau'r DU a Chymru yn golygu nad oes modd cyflawni'r dyddiad targed gwreiddiol o 1af Gorffennaf. Mae dyddiad targed diwygiedig o 1 Tachwedd wedi'i bennu.

Mae staff yn y Swyddfa Rheoli Portffolio wedi cael gwybod am y gohiriad, gan na ellir gwblhau'r trosglwyddiad TUPE cyn trosglwyddo'r swyddogaethau. Ni chodwyd unrhyw bryderon mawr gan staff yn ystod yr ymgynghoriad TUPE gwreiddiol a oedd i fod i ddod i ben ar 24 Gorffennaf, ac ar y cyfan roedd y staff yn gadarnhaol o'r trosglwyddiad. Mi fydd yr ymgynghoriad TUPE yn parhau ar agor nes bydd y dyddiad trosglwyddo newydd wedi'i gadarnhau.

**CBC - DYLETSWYDDAU A SWYDDOGAETH STATUDOL**

Safonau'r Gymraeg

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru a'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) yn gyrff cyhoeddus a sefydlwyd gan Reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Maent yn atebol i gydymffurfio â safonau perthnasol yr Iaith Gymraeg ym meysydd darparu gwasanaethau, llunio polisi, gweithrediadau, hyrwyddo a chadw cofnodion.

Y sefyllfa bresennol:

Mae'r Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi hysbysiad o ymgynghori ar Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar yr hysbysiad cydymffurfio drafft o dan Adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd yr hysbysiad cydymffurfio drafft yn cael ei drafod fel eitem ar wahân yng nghyfarfod y CBC.

**Dyletswyddau a swyddogaethau statudol eraill:**

Mae angen i bob corff sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y CBC gydymffurfio â dyletswyddau i gyrff y sector cyhoeddus, sy'n greiddiol i'r ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Felly, mae gwaith ar y gweill i hyrwyddo a hwyluso safonau dyletswyddau gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.

Mae'r gofynion statudol canlynol i gyd yn rhan o gwmpas gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac maent yn rhan o'r blaen raglen waith.

- Sefydlu Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio,
- Sefydlu'r Is-bwyllgor Safonau
- Sefydlu Polisi Cydraddoldeb
- Sefydlu'r trefniadau dyletswyddau perfformiad, o dan Ran 6 o Ddeddf 2021
- Cynllunio a Chyhoeddi - Polisi/adroddiad yr Amgylchedd (Bioamrywiaeth)
- Cynllunio a Chyhoeddi polisi : Rhyddid Gwybodaeth
- Cyhoeddi Cynllun Deisebau:
- Gweithredu Dyletswydd Cyfranogiad y Cyhoedd

## ATODIAD 2

**Ffrydiau Gwaith: Trosglwyddo'r Cynllun Twf, y cyllid a swyddogion y Swyddfa Rheoli Portffolio i'r CBC**

| Ffrwd gwaith | Pwrpas | Cerrig Milltir allweddol |
|---|---|---|
| Cytundeb ar Drosglwyddo<br>Cyfreithiol / Llywodraethu | Sicrhau bod y cytundebau a'r caniatadau angenrheidiol sydd eu hangen i gyflawni'r trosglwyddiad yn cael eu sicrhau a'u cytuno.<br>Sicrhau bod y trefniadau a'r cytundebau llywodraethu angenrheidiol mewn lle o fewn y CBC ar gyfer cyflawni'r Cynllun Twf, gan gynnwys rôl ymgynghorwyr o fewn y Bwrdd Uchelgais Economaidd. | Sicrhau cytundeb gan Cabinet a Pwyllgorau Gwaith y 6 Awdurdod Cyfansoddol a phartïon GA2 i drosglwyddo.<br>Cytundeb y ddwy lywodraeth i drosglwyddo'r Cynllun Twf i'r CBC ynghyd a throsglwyddo darpariaeth y Cynllun Twf a thynnu i lawr y cyllid i'r CBC.<br>Cytundeb ar barhad y model ariannu presennol ar gyfer y Cynllun Twf.<br>Cytundeb ar y rhyng-berthynas ôl-drosglwyddo rhwng y CBC a'r Cynghorau Cyfansoddol.<br>Cytundeb ar rôl ymgynghorwyr presennol y Bwrdd Uchelgais o fewn y CBC.<br>Cytundeb ar sut y bydd rôl datblygu'r economi rhanbarthol ehangach y CBC yn cael ei llunio a'i chydfodoli â swyddogaethau presennol yr Awdurdodau Lleol yn y maes hwn. |
| Pobl ac Adnoddau Dynol | Bwrw ymlaen gyda'r broses TUPE, gan gynnwys ymgynghori gyda staff, sicrhau bod polisïau a phrotocolau staff mewn lle er mwyn sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus i'r CBC. | Polisïau a phrosesau perthnasol a fabwysiadwyd gan y CBC.<br>Cynnal ymgynghoriad TUPE.<br>Trosglwyddodd llwyddiannus staff i'r CBC. |
| Cyllid, Prosesau a Systemau | Galluogi trosglwyddo cyllid y Cynllun Twf a threfniadau ariannu prosiectau, yn ogystal â sicrhau bod pob proses a system gweithredol mewn lle ar gyfer trosglwyddo'r Swyddfa Rheoli Portffolio i'r CBC. | Cymeradwyaeth gan y llywodraeth ar gyfer trosglwyddo cyllid y Cynllun Twf.<br>Prosesau a systemau angenrheidiol mewn lle cyn trosglwyddo cyllid y Cynllun Twf a staff y Swyddfa Rheoli Portffolio. |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Sicrhau bod staff a rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cyfathrebu â nhw a'u cynnwys drwy gydol y broses. | Cytuno ar y Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu.<br>Cyfathrebu rheolaidd cyn ac ar ôl trosglwyddo.<br>Cwblhau ymgynghoriad TUPE. |

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

21 Mehefin, 2024

| | |
|---|---|
| TEITL: | Is-bwyllgor - aelodaeth gyfetholedig |
| AWDUR: | Iwan Evans, Swyddog Monitro |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR:

1.1. Penodi fel aelodau cyfetholedig i is-bwyllgorau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a ganlyn:

(i) is-bwyllgor cynllunio strategol
(ii) is-bwyllgor trafnidiaeth strategol

1.2. Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dderbyn (a phenodi fel aelodau cyfetholedig) newidiadau i aelodaeth yr is-bwyllgorau hyn a hysbyswyd yn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro, ar yr amod bod y penodiadau hyn yn cael eu datgan i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn y cyfarfod nesaf

## 2. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

2.1. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig gyfrifoldeb statudol dros gynllunio strategol a datblygu polisi trafnidiaeth ar sail rhanbarthol o ran ardal pob cyngor cyfansoddol (ac ar gyfer cynllunio, Parc Cenedlaethol Eryri). Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi penderfynu sefydlu dau is-bwyllgor i gyflawni'r swyddogaeth hon, gan adrodd materion a gedwir yn ôl i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig sy'n cynnwys mabwysiadu ac adolygu unrhyw gynllun neu bolisi.

## 3. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU ERAILL

3.1. Yn 2022, cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig sefydlu Is-bwyllgor Cynllunio Strategol ac Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, ei aelodaeth a hawliau pleidleisio. Cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor Cyfetholedig hefyd Gylch Gorchwyl a Rheolau Sefydlog yr Is-bwyllgor ynghyd â manylion y broses ffurfiol ar gyfer cyfethol.

3.2. Mae'r adroddiad hwn yn adnabod yr aelodau hynny i gael eu cyfethol ar y ddau is-bwyllgor. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi penderfynu ffurfio cyfansoddiad ac aelodaeth ei is-bwyllgorau drwy gyfethol yr aelodau hynny sy'n dal y portffolio arweiniol ar gyfer trafnidiaeth (6 aelod â phleidlais) a chynllunio (7 aelod â phleidlais, gan gynnwys cynrychiolydd y Parc Cenedlaethol).

3.3. Mae'n rhaid i'r Aelodau arweiniol (ac aelod enwebedig y Parc Cenedlaethol) hynny a adnabuwyd i'w cyfethol lofnodi Cytundeb Cyfethol sy'n gosod y telerau a'r swyddogaethau mewn perthynas â phob is-bwyllgor - atodir copi templed o bob un yn Atodiad 1. Mae proses cyfethol yn golygu nad oes sgôp i ddirprwyo yn absenoldeb yr aelod cyfetholedig (oni bai bod yr aelod yn barti i drefniadau rhannu swydd).

3.4. Yn dilyn y penderfyniad ar gyfer cyfethol, bydd y ddau is-bwyllgor yn cael eu trefnu a'u hamserlennu i gyflawni eu swyddogaethau perthnasol. Rhan o swyddogaeth gychwynnol yr is-bwyllgorau hyn fydd ystyried a fyddai'r aelodaeth yn cael budd o gyfethol aelodau pellach nad ydynt o lywodraeth leol (heb bleidlais) e.e. cynrychiolaeth Trafnidiaeth Cymru a/neu APCE ar yr is-bwyllgor trafnidiaeth strategol, a gwneud argymhellion priodol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig maes o law.

3.5. Yr argymhelliad yw i benodi'r aelodaeth gyfetholedig fel a ganlyn:

3.5.1 Aelodau Cabinet Trafnidiaeth:

| Enw | Cyngor |
|---|---|
| Cyng. Dafydd Meurig | Cyngor Gwynedd |
| Cyng. Goronwy Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng. David A Bithell | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng. Dafydd Rhys Thomas | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng. Barry Mellor | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng. Dave Hughes | Cyngor Sir y Fflint |

3.5.2. Aelodau Cabinet Cynllunio a chynrychiolydd Parc Cenedlaethol:

| Enw | Cyngor |
|---|---|
| Cyng. Edgar Wyn Owen | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cyng. Dafydd Meurig | Cyngor Gwynedd |
| Cyng. Chris Cater | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng. Hugh Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng. Nicola Roberts | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng. Alan James | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng. Christopher Bithell | Cyngor Sir y Fflint |

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Cytundeb Cyfethol

---

SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Awdur yr adroddiad.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol."

| Cytundeb Cyfethol | Co-option Agreement |
|---|---|
| Yn unol â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi cytuno i benodi: | In accordance with The North Wales Corporate Joint Committee Regulations 2021, and The Corporate Joint Committee (General)(Wales) Regulations 2022, the Corporate Joint Committee has agreed to appoint: |
| **Cynghorydd XXXX,** Cyngor Sir XXXX yn Aelod Cyfetholedig ar y telerau a ganlyn: | **Councillor XXXX, XXXX** County Council as a co-opted Member on the following terms: |
| **1.**Pwyllgor/Is-bwyllgor: | **1.**Committee/Sub-Committee: |
| Penodir yr Aelod Cyfetholedig i'r **Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol** | The co-opted Member is appointed to the **Strategic Transport Sub-Committee** |
| **2.** Cyfnod | **2.** Term |
| Penodir yr Aelod Cyfetholedig am gyfnod ei aelodaeth o'r Cyngor, neu am gyfnod y Cyngor p'un bynnag yw'r byrraf. | The co-opted Member is appointed for the period of their membership of their Council, or for the term of the Council, whichever is the lesser. |
| Daw'r cyfetholiad i ben os yw Aelod yn ymddiswyddo o'r is-bwyllgor neu os nad yw bellach yn dal y Portffolio Polisi Trafnidiaeth yn eu Cyngor Cyfansoddol. | Co-option ends if a Member resigns from the sub-committee or no longer holds the Transportation Policy Portfolio at their Constituent Council. |
| Gall y CBC amrywio neu ddiddymu'r cytundeb cyfethol hwn. | The CJC may vary or terminate the co-option agreement. |
| **3.**Swyddogaethau<br>Dim ond mewn perthynas â'r swyddogaeth(au) a ganlyn y caniateir i'r Aelod Cyfetholedig weithredu: | **3.** Functions<br>The co-opted Member may act only in relation to the following function(s): |
| Datblygu polisïau trafnidiaeth rhanbarthol dan adran 108(1)(a) a (2A)(a) Rhan 2 Deddf Trafnidiaeth 2000, a gall wneud unrhyw beth i hwyluso neu'n sy'n gysylltiedig neu'n ffafriol i weithredu ei swyddogaethau. | Development of regional transportation policies under section 108 (1)(a) and (2A)(a) of Part 2 of the Transport Act 2000, and may do anything to facilitate or which is incidental or conducive to the exercise of its functions. |
| **4.** Diben a Swyddogaethau | **4.** Purpose and Functions |
| Penodir yr Aelod Cyfetholedig i'r diben(ion) yn 3 uchod ac i weithredu'r swyddogaethau a osodir yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor (gweler isod). | The co-opted Member is appointed for the purpose of 3. above, and to carry out the functions as set out in the Terms of Reference for the Sub-Committee (see below). |
| **5.** Hawliau Pleidleisio | **5.** Voting Rights |

| | |
|---|---|
| Mewn perthynas â'r swyddogaethau uchod, mae gan yr Aelod Cyfetholedig hawl i bleidleisio mewn cyfarfod o'r Is-bwyllgor ar unrhyw fater o fewn Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor.<br><br>6. <u>Cod Ymddygiad</u><br><br>Mae'r Aelod Cyfetholedig yn cytuno i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Aelodau fel y mabwysiadwyd gan y CBC.<br><br>**8.** <u>Cymeradwyaeth</u><br><br>Cytunir ar delerau'r Cytundeb Cyfethol hwn, a thrwy arwyddo mae'r aelodau'n cadarnhau nad ydynt wedi'u diarddel rhag bod yn aelod cyfetholedig ymhellach i reol.9A o Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021 | In respect of the above functions, the co-opted Member is entitled to vote in a meeting of the Sub-Committee on all matters within the Sub Committee's Terms of Reference.<br><br>6. <u>Code of Conduct</u><br><br>The co-opted Member agrees to abide by the Code of Conduct for Members as adopted by the CJC.<br><br>**8.** <u>Approval</u><br><br>The terms of this Co-Option Agreement are agreed, and by signing Members confirm that they are not disqualified from being a co-opted member further to reg.9A of the North Wales Corporate Joint Committee (Wales) Regulations 2021 |

Llofnod: Signed ...........................

Enw'r Aelod Cyfetholedig:
Co-Opted Member name: ...........................

Dyddiedig:
Dated: ...........................

**IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL - CYLCH GORCHWYL**

**Rheoliadau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig**

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 yn darparu y bydd y CBC yn gweithredu'r swyddogaethau o ddatblygu polisïau dan adran 108 Deddf Trafnidiaeth 2000.

Mae'r Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth)(Cymru) yn addasu Deddf Trafnidiaeth 2000 mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir dan Ran 5 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, lle mae swyddogaethau datblygu polisïau dan adran 108 Deddf Trafnidiaeth 2000 wedi'u cyflwyno i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

**RÔL:**

gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gymeradwyo ac adolygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar bolisïau i'w gweithredu gan yr awdurdodau trafnidiaeth lleol yn ei ardal o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

cynghori a gwneud argymhellion ar wasanaeth trafnidaeth strategol integredig a chydgysylltiedig yn y Gogledd; drwy fonitro ac adolygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

cynllunio, cydlynu a chynghori ar ymatebion rhanbarthol i gynigion Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Cymru.

adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gynnydd, perfformiad, canlyniadau a gofynion adnoddau.

cadw ei gynlluniau a'i bolisïau trafnidiaeth rhanbarthol dan adolygiad ac argymell unrhyw newidiadau os yw'n ystyried ei bod hi'n briodol gwneud hynny.

ymgymryd ag unrhyw weithgareddau sy'n ategol neu'n rhesymol gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaethau hyn

bydd gan Gadeirydd yr is-bwyllgor rôl allweddol wrth ddarparu arweinyddiaeth a chysylltiadau allweddol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yng nghyswllt gwaith yr Is-bwyllgor a'i rôl ymgynghorol wrth ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

cynghorir yr Is-Bwyllgor gan Swyddogion y CBC a'i Swyddogion Statudol neu eu cynrychiolwyr neu ddirprwyon a benodir yn briodol.

**Strategol**

cydlynu gweithgarwch Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill fel y byddai dull rhanbarthol strategol yn ei le yn y maes polisi perthnasol;

darparu cyngor strategol perthnasol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig;

cefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i ddylanwadu ar bolisïau cenedlaethol a rhaglenni ariannu;

gweithredu penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig; Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhoi cyfarwyddyd ac yn comisiynu'r Is-bwyllgorau i ymgymryd â thasgau allweddol.

**Rheoli Prosiectau a Rhaglenni**

cydlynu cynllunio, datblygu a chyflawni Rhaglen(ni)/Prosiect(au) perthnasol o fewn y Cylch Gorchwyl hwn;

monitro ac adolygu cynnydd ac effaith y Rhaglen(ni)/Prosiect(au) perthnasol, a chyflwyno unrhyw argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Monitro ac adolygu lefel a defnydd adnoddau gan gynnwys staff a lle mae'n ystyried yn briodol, gwneud argymhellion i'r CBC mewn perthynas â'r materion hyn.

**Rheoli Adnoddau**

Monitro ac adolygu lefel a defnydd adnoddau gan gynnwys staff a lle mae'n ystyried yn briodol, gwneud argymhellion i'r CBC mewn perthynas â'r materion hyn.

**Rheoli Perfformiad**

Cydlynu adrodd am berfformiad i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig o leiaf yn chwarterol.

**CYFRIFOLDEBAU A'R HYN SYDD I'W GYFLAWNI:**

**Cyfathrebu a Chodi Ymwybyddiaeth**

Bydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn paratoi adroddiad chwarterol ar ei waith ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig a fydd yn cynnwys:

Cynnydd ar weithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys Rhaglenni a Phrosiectau unigol.

Perfformiad Ariannol y Pwyllgor

Datblygiadau sydd ar y gweill.

Bydd yr adroddiad yn ffurfio rhan o brotocol craffu cytûn a bydd ar ffurf a fydd yn hwyluso ei gyflwyno i drefniadau Craffu neu drefniadau llywodraethu eraill fel y pennir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

**CWORWM:**

Rhaid i ddim llai na 5 aelod fod yn bresennol.

**ADOLYGU**

Bydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn cynnal hunan-asesiad blynyddol o'i weithgareddau o dan y Cylch Gorchwyl hwn ac yn adrodd unrhyw gasgliadau ac argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac, fel rhan o'r asesiad hwn, bydd yn ystyried a yw'n derbyn cefnogaeth ddigonol a phriodol ai peidio wrth gyflawni ei rôl ac a yw ei gynllun gwaith blynyddol yn hylaw ai peidio.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl yn flynyddol a gall argymell i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig unrhyw ddiwygiadau i'w Gylch Gorchwyl.

## STRATEGIC TRANSPORT SUB-COMMITTEE - TERMS OF REFERENCE

### The Corporate Joint Committees Regulations

The North Wales Corporate Joint Committee Regulations 2021 provide that the CJC is to exercise the functions of developing policies under section 108 of the Transport Act 2000.

The Corporate Joint Committee (Transport Functions)(Wales)Regulations modify the Transport Act 2000 in relation to Corporate Joint Committees established under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021, where the functions of developing policies under section 108 of the Transport Act 2000 have been conferred on Corporate Joint Committees.

### ROLE:

to make recommendations to the Corporate Joint Committee on the approval and revision of a Regional Transport Plan and its submission to Welsh Ministers for approval.

to make recommendations to the Corporate Joint Committee on policies for the implementation by the local transport authorities in its area of the Wales Transport Strategy.

to advise and make recommendations on a co-ordinated joined-up and integrated strategic transportation service in North Wales; through the monitoring, and review of a Regional Transport Plan.

to plan, co-ordinate and advise on regional responses to the Welsh Government Improving Public Transport proposals.

to report regularly to the Corporate Joint Committee on progress, performance, outcomes, and resource requirements.

keeping its regional transport plans and policies under review and recommend any alterations it if it considers it appropriate to do so.

to undertake any activities which are ancillary or reasonably incidental to the achievement of these functions

the chairperson of the sub-committee will play a key role in providing leadership and key relations with Welsh Government and the UK Government with regard to the work of the Sub-Committee and its advisory role in the development of the Regional Transport Plan.

the Sub Committee will be advised by Officers of the CJC and its Statutory Officers or their duly appointed representatives or deputies.

### Strategic

to co-ordinate Local Authority and other partner activity so that a strategic regional approach takes place in the relevant policy area.

to provide relevant strategic advice to the Corporate Joint Committee.

to support the Corporate Joint Committee to influence national policies and funding programmes.

to enact the decisions of the Corporate Joint Committee. The Corporate Joint Committee will provide direction and commission the Sub-Committees to undertake key tasks.

**Programme & Project Management**

to co-ordinate the planning, development and delivery of relevant Programme(s) / Project(s) within these Terms of Reference.

to monitor and review progress and impact of relevant Programme(s) / Project(s), and to put forward any recommendations to the Corporate Joint Committee.

To monitor and review the level and deployment of resources including staff and where it deems appropriate make recommendations to the CJC in relation to these matters.

**Resource Management**

To monitor and review the level and deployment of resources required including staff and where it deems appropriate make recommendations to the CJC in relation to these matters.

**Performance Management**

To co-ordinate the reporting of performance to the Corporate Joint Committee at least quarterly.

**RESPONSIBILITIES and DELIVERABLES:**

**Communication and Awareness Raising**

The Transport Sub-Committee will prepare a quarterly report on its work for the Corporate Joint Committee which shall include:

- Progress on implementation of the Regional Transport Plan including individual Programmes and Projects.
- The Financial Performance of the Committee
- Forthcoming developments.

The report shall form part of an agreed scrutiny protocol, and shall be in a format which will facilitate its submission into Scrutiny or other governance arrangements as determined the Corporate Joint Committee.

**QUORUM:**

No fewer than 5 of the members must be present.

**REVIEW**

The Transport Sub-Committee shall conduct an annual self-assessment of its activities under these Terms of Reference and report any conclusions and recommendations to the Corporate Joint Committee and, as part of this assessment, shall consider whether or not it receives adequate and appropriate support in fulfilment of its role and whether or not its annual plan of work is manageable.

The Committee shall annually review its Terms of Reference and may recommend to the Corporate Joint Committee any amendments to its Terms of Reference.

| Cytundeb Cyfethol | Co-option Agreement |
|---|---|
| Yn unol â (Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi cytuno i benodi:<br><br>**y Cynghorydd XXXXX,** Cyngor Sir XXX yn Aelod Cyfetholedig ar y telerau a ganlyn:<br><br>**1.**<u>Pwyllgor/Is-bwyllgor:</u><br><br>Penodir yr Aelod Cyfetholedig i'r<br><br>**Is-bwyllgor Cynllunio Strategol**<br><br>**2.** <u>Cyfnod</u><br><br>Penodir yr Aelod Cyfetholedig am gyfnod ei aelodaeth gyda'r Cyngor neu am gyfnod y Cyngor, pa'r un bynnag yw'r byrraf.<br><br>Daw'r cyfetholiad i ben os yw Aelod yn ymddiswyddo o'r Is-bwyllgor neu os nad yw bellach yn dal y Portffolio Polisi Cynllunio yn ei Gyngor Cyfansoddol.<br><br>Gall y CBC amrywio neu derfynu'r cytundeb cyfethol hwn.<br><br>**3.** <u>Swyddogaethau</u><br><br>Dim ond mewn perthynas â'r swyddogaeth(au) a ganlyn y caniateir i'r Aelod Cyfetholedig weithredu:<br><br>Paratoi cynllun datblygu strategol (yn unol â Rhan 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004), a chaiff wneud unrhyw beth i hwyluso neu sy'n ffafriol i ymarfer ei swyddogaethau, heblaw am y swyddogaethau hynny a nodir yn rheoliad 15(1)(b)(i)-(viii),<br><br>**4.** <u>Diben a Swyddogaethau</u><br><br>Penodir yr Aelod Cyfetholedig er diben 3 uchod ac i weithredu'r swyddogaethau fel y nodwyd hwy yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor (gweler isod). | In accordance with The North Wales Corporate Joint Committee Regulations 2021, and The Corporate Joint Committee (General)(Wales) Regulations 2022, the Corporate Joint Committee has agreed to appoint:<br><br>**Councillor XXXX**, XXXX County Council as a co-opted Member on the following terms:<br><br>**1.**<u>Committee/Sub-Committee:</u><br><br>The co-opted Member is appointed to the<br><br>**Strategic Planning Sub-Committee**<br><br>**2.** <u>Term</u><br><br>The co-opted Member is appointed for the period of their membership of their Council, or for the term of the Council, whichever is the lesser.<br><br>Co-option ends if a Member resigns from the sub-committee or no longer holds the Planning Policy Portfolio at their Constituent Council.<br><br>The CJC may vary or terminate the co-option agreement.<br><br>**3.** <u>Functions</u><br><br>The co-opted Member may act only in relation to the following function(s):<br><br>Preparation of a strategic development plan (and accordingly Part 6 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004), and may do anything to facilitate or which is incidental or conducive to the exercise of its functions, save for those functions as set out in reg.15(1)(b)(i)-(viii),<br><br>**4.** <u>Purpose and Functions</u><br><br>The co-opted Member is appointed for the purpose of 3. above, and to carry out the functions as set out in the Terms of Reference for the Sub-Committee (see below).<br><br>**5.** <u>Voting Rights</u> |

| | |
|---|---|
| **5.** Hawliau Pleidleisio<br><br>Yng nghyswllt y swyddogaethau uchod, mae gan yr Aelod Cyfetholedig yr hawl i bleidleisio mewn cyfarfod o'r Is-bwyllgor ar bob mater sydd yng Nghylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor.<br><br>6. Cod Ymddygiad<br><br>Mae'r Aelod Cyfetholedig yn cytuno i lynu at y Cod Ymddygiad i Aelodau fel y mabwysiadwyd gan y CBC.<br><br>**8.** Cymeradwyaeth<br><br>Cytunir ar delerau y Cytundeb Cyfethol hwn, a drwy arwyddo mae'r Aelodau'n cadarnhau nad ydynt wedi eu diarddel rhag bod yn aelod cyfetholedig yn unol â rheol 9A Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021 | In respect of the above functions, the co-opted Member is entitled to vote in a meeting of the Sub-Committee on all matters within the Sub Committee's Terms of Reference.<br><br>6. Code of Conduct<br><br>The co-opted Member agrees to abide by the Code of Conduct for Members as adopted by the CJC.<br><br>**8.** Approval<br><br>The terms of this Co-Option Agreement are agreed, and by signing Members confirm that they are not disqualified from being a co-opted member further to reg.9A of the North Wales Corporate Joint Committee (Wales) Regulations 2021 |

Llofnod:

Signed ………………………

Enw'r Aelod Cyfetholedig:
Co-Opted Member name: ………………………

Dyddiedig:
Dated: ………………………

**IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL – CYLCH GORCHWYL**

Swyddogaethau'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol

Bydd yr Is-bwyllgor yn goruchwylio'r swyddogaethau penodol a ganlyn yn y gorchymyn a gyflwynir, yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 cyn cynghori a cheisio cymeradwyaeth y CBC (sylwer hefyd y cyfyngiadau ar gyflawni swyddogaeth o dan Adran 6):

Ystyried a datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn sydd ei hangen ar gyfer y CDS a gefnogir gan weithgorau'r CDS ac mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol rhanbarthol.

Goruchwylio'r dasg o adnabod cyrff ymgynghori i gymryd rhan yn y broses CDS – 'cyffredinol' a 'penodol' (Rheoliad 5 & 6),

Paratoi Cytundeb Cyflawni drafft (Amserlen a Chynllun Cyfranogiad Cymunedol) ar gyfer paratoi'r CDS a'r SA/SEA – gan gynnwys gofynion ymgysylltu, cynnwys, hysbysu a chyhoeddi (Rheoliadau 7 i 12)

Paratoi'r CDS (Ffurf, Cynnwys y CDS a'r Map Cynigion) yn unol â (Rheoliadau 13 i 14)

Ystyried materion ychwanegol y mae angen rhoi gwybod i'r CBC amdanynt, sef Adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 a materion eraill (Rheoliad 15)

Ymgymryd â'r galw am leoliadau a safleoedd strategol ymgeisiol a pharatoi "cofrestr safleoedd a lleoliadau strategol ymgeisiol" er mwyn rhoi gwybod am yr argaeledd tir ledled y rhanbarth (Rheoliad 16 (1)(b)-(d))

Goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu cynigion Cyn-adneuo y CDS (dogfennau paratoi, cyfranogiad a chynigion) – at ddiben ystyried ystod o opsiynau a strategaethau amgen (Rheoliad 16 i 17).

Goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu Arfarniad Cynaliadwyedd SDP (SA) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) y CDS yn unol â (a39 (2) Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau SEA 5(2) a 5(4) yn y drefn honno).

Paratoi a chynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adneuo angenrheidiol (Rheoliad 18)

Paratoi'r adroddiad sylwadau ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adneuo ar gyfer y CBC (Rheoliad 19)

Goruchwylio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adnau – Dogfennau i'w paratoi, gofynion hysbysu a chyhoeddi, ymgynghoriad cyhoeddus statudol (isafswm o 6 wythnos) ac ystyried sylwadau (Rheoliadau 20 i 22)

Paratoi cyflwyno'r CDS i'w archwilio – Dogfennau i'w paratoi/eu cyflwyno, gofynion cyhoeddi a hysbysu (Rheoliad 23)

Paratoi ar gyfer a rheoli'r Archwiliad Annibynnol o'r CDS gan gynnwys gofynion hysbysu a chyhoeddi (Rheoliad 24)

Ystyried ac ymateb i Adroddiad yr Arolygwr – gan gynnwys gofynion hysbysu a chyhoeddi (Rheoliad 25)

Lle bo angen, bydd yr is-bwyllgor yn ymateb i faterion sy'n ymwneud â 'materion sy'n atal mabwysiadu' (Rheoliad 26), 'cyfarwyddyd i addasu'r CDS' (Rheoliad 27) a 'galw i mewn' (Rheoliadau 28 – 32)

Paratoi i Fabwysiadu – gan gynnwys gweithdrefnau mabwysiadu, hysbysu a gofynion cyhoeddi (Rheoliad 35)

Goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) – gan gynnwys gofynion cynnwys, cyhoeddi a hysbysu (Rheoliad 27).

Goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu Adroddiad Adolygu'r CDS (dim hwyrach na 6 blynedd ar ôl mabwysiadu) (Rheoliad 39)

**Rheoli Prosiectau a Rhaglenni**

cydlynu'r gwaith o gynllunio, datblygu a chyflawni Rhaglen(ni)/Prosiect(au) perthnasol o fewn y Cylch Gorchwyl hwn;

monitro ac adolygu cynnydd ac effaith y Rhaglen(ni)/Prosiect(au) perthnasol, a chyflwyno unrhyw argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Monitro ac adolygu lefel a defnydd a gwerth am arian adnoddau gan gynnwys staff, a gwneud argymhellion i'r CBC mewn perthynas â'r materion hyn pan fo'n ystyried bod hynny'n briodol.

Monitro ac adolygu lefel a defnydd yr adnoddau sydd eu hangen gan gynnwys staff, a gwneud argymhellion i'r CBC mewn perthynas â'r materion hyn pan fo'n ystyried bod hynny'n briodol.

**Rheoli Perfformiad**

Bydd yn ymgymryd â'r isod:

Cydlynu'r broses adrodd am berfformiad i'r CBC o leiaf yn Chwarterol yn unol â Chytundeb Cyflawni'r CDS neu fel y gweithredir gan y CBC.

Cydlynu a chyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) statudol i'r CBC wedi mabwysiadu'r CDS

Cyflwyno Adroddiad Adolygu CDS i'r CBC lle bo angen o dan reoliadau statudol neu'n gynnar os daw'r AMR i gasgliad gwahanol.

**STRATEGIC PLANNING SUB-COMMITTEE - TERMS OF REFERENCE**

Functions of the Strategic Planning Sub-Committee

The Sub-committee will oversee the following specific functions in the order presented, as per The Town and Country Planning (Strategic Development Plan) (Wales) Regulations 2021 prior to advising and seeking approval of the CJC (note also the limitations on discharging function under Section 6):

Consider and develop a robust evidence base required for the SDP supported by the SDP working groups and in partnership with the regional Local Planning Authorities.

Oversee the Identification of consultation bodies to be engaged in the SDP process – 'general' and 'specific' (Regulation 5 & 6),

Prepare a draft Delivery Agreement (Timetable and Community Involvement Scheme) for preparation of the SDP and SA/SEA – including engagement, content, notification and publication requirements (Regulations 7 to 12)

Prepare the LDP (Form, Content of the SDP and Proposals Map) in line with (Regulations 13 to 14)

Have regard to additional matters that the CJC need to be informed of, that being Section 108 of the Transport Act 2000 and other matters (Regulation 15)

Undertake a call for candidate strategic locations and sites and prepare a "candidate strategic sites and locations register" for the purposes of informing land availability across the region (Regulation 16 (1)(b)-(d))

Oversee the production of the SDP Pre-deposit proposals (preparation, participation and proposals documents) – for the purpose of considering a range of alternative options and strategies (Regulation 16 to 17).

Oversee the production of the SDP Sustainability Appraisal (SA) and Strategic Environmental Assessment (SEA) in line with (s39 (2) Planning and Compulsory Act 2004 (as amended) and SEA Regulations 5(2) and 5(4) respectively).

Prepare and undertake the necessary pre-deposit public consultation (Regulation 18)

Prepare the Pre-deposit public consultation representations report for the CJC (Regulation 19)

Oversee the Deposit Plan preparation – Documents to be prepared, notification and publication requirements, statutory public consultation (6 weeks minimum) and consideration of representations (Regulations 20 to 22)

Prepare submission of the SDP for examination – Documents to be prepared/submitted, publication and notification requirements (Regulation 23)

Prepare for and manage the Independent Examination of the SDP including notification and publication requirements (Regulation 24)

Consider and respond to the Inspectors Report - including notification and publication requirements (Regulation 25)

Where necessary, the sub-committee will respond to matters related to ‘matters preventing adoption’ (Regulation 26), ‘direction to modify the SDP’ (Regulation 27) and ‘call in’ (Regulations 28 – 32)

Prepare for Adoption – including adoption procedures, notification and publication requirements (Regulation 35)

Oversee the production of the Annual Monitoring Report (AMR) - including content, publication and notification requirements (Regulation 27).

Oversee the production of the SDP Review and Review Report (no later than 6 years following adoption) (Regulation 39)

**Programme & Project Management**

to co-ordinate the planning, development and delivery of relevant Programme(s) / Project(s) within these Terms of Reference;

to monitor and review progress and impact of relevant Programme(s) / Project(s), and to put forward any recommendations to the Corporate Joint Committee.

To monitor and review the level and deployment and value for money of resources including staff and where it deems appropriate make recommendations to the CJC in relation to these matters.

To monitor and review the level and deployment of resources required including staff and where it deems appropriate make recommendations to the CJC in relation to these matters.

**Performance Management**

The following will be undertaken:

To co-ordinate the reporting of performance to the CJC at least Quarterly in line with the SDP Delivery Agreement or as actioned by the CJC

To co-ordinate and present a statutory Annual Monitoring Report (AMR) to the CJC upon adoption of the SDP

To present a SDP Review Report to the CJC where required under statutory regulation or early if the AMR concludes otherwise.

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

21 Mehefin, 2024

**TEITL:** Safonau'r Gymraeg: Hysbysiad Cydymffurfio Drafft

**AWDUR:** Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR :

1.1. Cynghori’r Prif Weithredwr am unrhyw faterion y byddai'r CBC yn dymuno eu cynnwys yn yr ymateb i'r ymgynghoriad ac i awdurdodi'r Prif Weithredwr i ymateb i'r ymgynghoriad mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, gan gynnwys y materion a amlygwyd.

## 2. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

2.1. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi hysbysiad o ymgynghori ar Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar yr hysbysiad cydymffurfio drafft o dan Adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (***Atodiad 1***). Mae'r hysbysiad cydymffurfio a'r safonau drafft wedi'u cynnwys yn ***Atodiad 2***. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) yn gyrff cyhoeddus a sefydlwyd gan Reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Maent yn atebol i gydymffurfio â safonau perthnasol yr Iaith Gymraeg ym meysydd darparu gwasanaethau, llunio polisi, gweithrediadau, hyrwyddo a chadw cofnodion. Mae'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i ymateb i'r Safonau arfaethedig cyn cyhoeddi'r hysbysiad cydymffurfio ffurfiol.

2.2. Bu’r hysbysiad cydymffurfio drafft gael ei gyhoeddi ar 25 Mawrth, 2024 gyda chyfnod ymgynghori 12-wythnos yn dod i ben ar 21 Mehefin, 2024. Cytunwyd ar estyniad i ddyddiad cau y cyfnod ymgynghori gyda'r Comisiynydd, hyd nes 26 Gorffennaf. Mae copi o'r ffurflen ymateb i’r ymgynghoriad Adran 47 wedi'i gynnwys er gwybodaeth yn ***Atodiad 3***.

## 3. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

3.1. Yn dilyn cyflwyno'r Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021 a diwygiadau i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 gall y Comisiynydd y Gymraeg osod safonau ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC).

3.2. Mae'r Comisiynydd wedi dechrau'r broses ymgynghori statudol o dan adran 47 o Fesur y Gymraeg sy'n rhoi amser i'r CBC ddarparu tystiolaeth i’r Comisiynydd os oes gan y CBC farn bod un neu fwy o'r safonau sydd wedi'u cynnwys yn yr hysbysiad cydymffurfio drafft yn afresymol a/neu'n anghymesur.

3.3. Yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion penodol gyda'r safonau arfaethedig y mae angen i mi eu hamlygu.

## 4. GOBLYGIADAU ARIANNOL

4.1 Bydd costau sy'n gysylltiedig â Safonau'r Gymraeg yn ymwneud ag amser swyddogion wrth sicrhau bod safonau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, unwaith y bydd hysbysiad cydymffurfio terfynol wedi'i osod, yn cael eu bodloni.

## 5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

5.1. Fel y nodwyd ym mharagraff 2.1, mae cydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn ofyniad cyfreithiol i'r CBC fel corff cyhoeddus. Mae'r broses ymgynghori yn rhoi cyfle i'r CBC ymateb i'r safonau arfaethedig.

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Safonau'r Gymraeg – ymgynghoriad ar hysbysiad cydymffurfio o dan Adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 |
| Atodiad 2: | Hysbysiad Cydymffurfio Drafft – Adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 |
| Atodiad 3: | Ffurflen ymateb ymgynghoriad Adran 47 |

---

SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad yn gosod allan y gofynion sydd yn ynghlwm a'r broses statudol o osod Safon Iaith ar gyfer y CBC . Drwy'r ymgynghoriad yma mae modd rhoi sylwadau cyn i'r rhybudd cydymffurfiaeth gael ei gyhoeddi yn ffurfiol. Er fod modd apelio rhybudd o'r fath mae'r ymgynghoriad sydd gerbron yn rhoi cyfle i gyfleu unrhyw sylwadau ymlaen llaw i'w hystyried os oes awydd i wneud hynny."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Rwyf yn fodlon na fyddai gweithredu'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant ychwanegol."

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

25 Mawrth 2024

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Safonau'r Gymraeg – ymgynghoriad ar eich hysbysiad cydymffurfio o dan Adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Fel y gwyddoch, yn dilyn cyflwyno Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021 a diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 mae modd i Gomisiynydd y Gymraeg osod safonau'r Gymraeg ar eich corff. Yn dilyn cyfarfodydd un wrth un gyda chynrychiolwyr eich corff, mae'r Comisiynydd yn cychwyn y broses ymgynghori statudol o dan adran 47 Mesur y Gymraeg gyda chi.

**(1) Ymgynghori:**

Gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth i Gomisiynydd y Gymraeg gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb sydd ynghlwm. Mae'r ffurflen yn cynnwys gofod i chi nodi os ydych o'r farn bod un neu fwy o'r safonau yn yr hysbysiad yn afresymol ac/neu'n anghymesur. Os ydych chi o'r farn bod un neu fwy o'r safonau yn yr hysbysiad yn afresymol ac/neu'n anghymesur dylid nodi:

a) rhif y safon yn yr hysbysiad cydymffurfio drafft sydd yn eich barn chi'n afresymol ac/neu anghymesur;

b) pam fod y safon yn afresymol ac/neu'n anghymesur, gan nodi pob rheswm a thystiolaeth i gefnogi hynny;

c) a fyddai amrywio'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon yn ei wneud yn rhesymol a/neu chymesur. Er enghraifft, drwy gyflwyno'r gofyniad ar adeg gwahanol, mewn amgylchiadau gwahanol neu mewn ardaloedd gwahanol neu drwy osod safon arall sy'n ymwneud â'r un gweithgaredd. Dylid nodi beth yw'r rheiny, gan nodi pob rheswm a thystiolaeth i gefnogi hynny.

Wrth ymateb, dylid ystyried cynnwys yr hysbysiad cydymffurfio drafft ochr yn ochr â chynnwys Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Dylid rhoi sylw yn arbennig i

adrannau dehongli y safonau sy'n nodi pryd mae rhai safonau yn gymwys ac yn rhoi arweiniad ar sut i ddehongli'r safonau. Dylech hefyd ystyried y Cod Ymarfer sy'n egluro gofynion ymarferol y safonau.

**(2) Dyddiad cychwyn ymgynghori:**

Cychwynnir y cyfnod ymgynghori ar yr hysbysiad cydymffurfio drafft ar **25 Mawrth 2024**. Daw'r cyfnod hwnnw i ben ar **21 Mehefin 2024**.

Nid yw methiant sefydliad i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r sefydliad hwnnw.  Os nad ydych am gyflwyno sylwadau neu dystiolaeth ar gynnwys yr hysbysiad cydymffurfio drafft byddwn yn ddiolchgar os fyddech yn cadarnhau hynny.

*Noder mai yn electroneg yn unig rydym yn darparu'r hysbysiad cydymffurfio drafft a'r ffurflen ymateb*.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, mae croeso i chi gysylltu â'm swyddogion ar 0345 60 33 221 neu drwy post@cyg-wlc.cymru.

Yn gywir,



**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO DRAFFT – ADRAN 47 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011**

**Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd – Dyddiad Dyroddi: 25/03/2024**

| **Rhif Safon** | **Dosbarth o Safon** | **Safon** | **Diwrnod Gosod** |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. | 6 mis |
| 4 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni. | 6 mis |
| 5 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw. | 6 mis |
| 6 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd). | 6 mis |
| 7 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi ddatgan -<br>(a) mewn gohebiaeth, a<br>(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. | |
| 8 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg. | 6 mis |
| 9 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. | 6 mis |
| 10 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny (gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg os yw hynny'n angenrheidiol). | 6 mis |
| 12 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 6 mis |
| 13 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol. | 6 mis |
| 14 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw’r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg. | 6 mis |
| 16 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i’ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy’n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg. | 6 mis |
| 17 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o’ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i’r personau sy’n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. | 6 mis |
| 18 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os bydd person yn cysylltu ag un o’ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw’n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddarparu’r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg yn ei gyfanrwydd (os yw’n angenrheidiol drwy drosglwyddo’r alwad i aelod o staff sy’n gallu delio â’r alwad yn Gymraeg). | 6 mis |
| 20 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg wrth gyfarch y person. | 6 mis |
| 21 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw’n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthych yn Gymraeg; ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o’i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg. | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 22 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg. | 6 mis |
| 23 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg; ac os yw P yn eich hysbysu ei fod yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, rhaid ichi gynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | 6 mis |
| 25 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, a bod y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant A, rhaid ichi –<br>(a) gofyn i A a yw'n dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, a<br>(b) os yw A yn eich hysbysu ei fod yn dymuno hynny, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | 6 mis |
| 27 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | 6 mis |
| 27A | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. | 6 mis |
| 27CH | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, rhaid ichi –<br>(a) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu i bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, a<br>(b) os yw'r unigolyn hwnnw, neu os yw pob un o'r unigolion hynny, yn eich hysbysu ei fod yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | 6 mis |
| 30 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | 6 mis |
| 31 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg. | 6 mis |
| 32 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi -<br>(a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | 6 mis |
| 33 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg - | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. | |
| 34 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd hwnnw'n cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | 6 mis |
| 35 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad). | 6 mis |
| 36 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo). | 6 mis |
| 37 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | 6 mis |
| 38 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | 6 mis |
| 40 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddogfennau at ddefnydd y cyhoedd yr ydych yn eu llunio gael eu llunio yn Gymraeg. | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 47 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio dogfen at ddefnydd y cyhoedd, a phan nad oes safon arall wedi ei gwneud yn ofynnol ichi ei llunio yn Gymraeg, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg -<br>(a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu<br>(b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg. | 6 mis |
| 48 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | 6 mis |
| 49 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg. | 6 mis |
| 50 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei llunio at ddefnydd y cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg. | 6 mis |
| 50A | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. | 6 mis |
| 50B | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen). | 6 mis |
| 51 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg. | |
| 52 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau -<br>(a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,<br>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac<br>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan. | 6 mis |
| 55 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. | 6 mis |
| 56 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg. | 6 mis |
| 57 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw. | 6 mis |
| 58 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 6 mis |
| 59 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). | 6 mis |
| 60 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd gennych yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw. | 6 mis |
| 61 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy’n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw’r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na’r testun Saesneg. | |
| 62 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu’n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw’n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg, rhaid i’r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy’n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | 6 mis |
| 63 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant. | 6 mis |
| 64 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg. | 6 mis |
| 67 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy’n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg yn y dderbynfa. | 6 mis |
| 68 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy’n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy’n cyfleu hynny. | 6 mis |
| 69 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw hysbysiad swyddogol yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o’r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. | 6 mis |
| 70 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi neu’n arddangos hysbysiad swyddogol sy’n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â’r testun Saesneg, rhaid | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | |
| 71 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt. | 6 mis |
| 72 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. | 6 mis |
| 72A | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau). | 6 mis |
| 73 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfweliad yn Gymraeg ac, os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal y cyfweliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | 6 mis |
| 75 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg. | 6 mis |
| 76 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 77 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg. | 6 mis |
| 77A | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi beidio â thrin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwyr am benderfyniadau). | 6 mis |
| 78 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfweliad hwnnw yn Gymraeg ac, os yw'r tendrwr yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal y cyfweliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | 6 mis |
| 80 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg. | 6 mis |
| 81 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg. | 6 mis |
| 82 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg. | 6 mis |
| 83 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 6 mis |
| 84 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg. | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 87 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf. | 6 mis |
| 88 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 6 mis |
| 89 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 6 mis |
| 90 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 6 mis |
| 91 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |
| 92 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 6 mis |
| 93 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 6 mis |
| 94 | Llunio Polisi | Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant -<br>(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar -<br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;<br>(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg;<br>(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai’n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai’n cael effeithiau llai andwyol ar -<br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg;<br>(ch) a oes angen ichi ofyn i’r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar -<br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |
| 95 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu’n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i’ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu’n rhai andwyol), y byddai’r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | 6 mis |
| 96 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu’n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i’ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai’n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | 6 mis |
| 97 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu’n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i’ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |
| 98 | Gweithredu | Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd. | 6 mis |
| 99 | Gweithredu | Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid ichi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny rhaid ichi ddarparu'r contract yn Gymraeg. | 6 mis |
| 100 | Gweithredu | Rhaid ichi -<br>(a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a<br>(b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, ddarparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddo yn Gymraeg. | 6 mis |
| 101 | Gweithredu | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg. | 6 mis |
| 102 | Gweithredu | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg. | 6 mis |
| 103 | Gweithredu | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg. | |
| 104 | Gweithredu | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi -<br>(a) gwyliau,<br>(b) absenoldebau o'r gwaith, ac<br>(c) oriau gwaith hyblyg,<br>yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg. | 6 mis |
| 105 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 6 mis |
| 106 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 6 mis |
| 107 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 6 mis |
| 108 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 6 mis |
| 109 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 6 mis |
| 110 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 6 mis |
| 111 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 6 mis |
| 112 | Gweithredu | Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o'ch staff -<br>(a) gwneud cwynion ichi yn Gymraeg, a<br>(b) ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg. | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 112A | Gweithredu | Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff -<br>(a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a<br>(b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno. | 6 mis |
| 113 | Gweithredu | Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi –<br>(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, 30/03/2016<br>(b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | 6 mis |
| 115 | Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano ef, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff -<br>(a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg,<br>(b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef,<br>(c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu<br>(ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn. | 6 mis |
| 116 | Gweithredu | Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol. | 6 mis |
| 116A | Gweithredu | Rhaid ichi -<br>(a) datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a<br>(b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno. | |
| 117 | Gweithredu | Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi –<br>(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, a<br>(b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | 6 mis |
| 119 | Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff -<br>(a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,<br>(b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu<br>(c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu. | 6 mis |
| 120 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael). | 6 mis |
| 121 | Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau -<br>(a) bod testun pob tudalen ar eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg,<br>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd yn gweithredu'n llawn, ac<br>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich mewnrwyd. | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 124 | Gweithredu | Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. | 6 mis |
| 126 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar eich tudalennau mewnrwyd yn Gymraeg. | 6 mis |
| 127 | Gweithredu | Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion. | 6 mis |
| 128 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg -<br>(a) recriwtio a chyf-weld;<br>(b) rheoli perfformiad;<br>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;<br>(ch) ymsefydlu;<br>(d) delio â'r cyhoedd; ac<br>(dd) iechyd a diogelwch. | 6 mis |
| 129 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn -<br>(a) cyfarfodydd;<br>(b) cyfweliadau; ac<br>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu. | 6 mis |
| 130 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith -<br>(a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a<br>(b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr. | 6 mis |
| 131 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith. | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 132 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu -<br>(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);<br>(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;<br>(c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. | 6 mis |
| 133 | Gweithredu | Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg. | 6 mis |
| 134 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith. | 6 mis |
| 135 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost. | 6 mis |
| 136 | Gweithredu | Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys -<br>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;<br>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;<br>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 136A | Gweithredu | Os byddwch wedi categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi -<br>(a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a<br>(b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg. | 6 mis |
| 137 | Gweithredu | Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. | 6 mis |
| 137A | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi -<br>(a) ffurflenni cais am swyddi;<br>(b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi;<br>(c) gwybodaeth am eich proses gyf-weld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi;<br>(ch) swydd-ddisgrifiadau;<br>rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt. | 6 mis |
| 137B | Gweithredu | Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau). | 6 mis |
| 138 | Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg ac, os yw unigolyn yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal unrhyw gyfweliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg (heb | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol) | |
| 140 | Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg. | 6 mis |
| 141 | Gweithredu | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | 6 mis |
| 142 | Gweithredu | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | 6 mis |
| 143 | Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant. | 6 mis |
| 144 | Gweithredu | Pan fyddwch yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn eich gweithle, rhaid i'r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg, ac os gwneir y cyhoeddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf. | 6 mis |
| 145 | Hybu | Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) -<br>(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer | 12 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a<br>(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;<br>a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni). | |
| 146 | Hybu | Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi -<br>(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a<br>(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn -<br>(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;<br>(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg. | 12 mis |
| 147 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau. | 6 mis |
| 148 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 6 mis |
| 149 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio). | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 150 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod o’r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â’r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 6 mis |
| 151 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 127), o nifer y cyflogeion sy’n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny’n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau’r cyflogeion hynny. | 6 mis |
| 152 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o -<br>(a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a<br>(b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o’r cwrs. | 6 mis |
| 153 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 136) mewn cysylltiad â’r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag. | 6 mis |
| 154 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y swyddi newydd a’r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 136) fel swyddi sy’n gofyn<br>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;<br>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i’r swydd;<br>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. | 6 mis |
| 155 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy’n cofnodi’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a’r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â’r safonau | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | hynny, ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | |
| 156 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn -<br>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac<br>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 6 mis |
| 157 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer<br>(i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,<br>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a<br>(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny,<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac<br>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 6 mis |
| 158 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ichi gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.<br>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.<br>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y  flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.<br>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.<br>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | |
| 159 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 6 mis |
| 160 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 6 mis |
| 161 | Atodol - Llunio Polisi | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 6 mis |


| | | | |
|---|---|---|---|
| 162 | Atodol - Llunio Polisi | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn -<br>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac<br>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael, ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 6 mis |
| 163 | Atodol - Llunio Polisi | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac<br>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 6 mis |
| 164 | Atodol - Llunio Polisi | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.<br>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.<br>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.<br>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | |
| 165 | Atodol - Llunio Polisi | Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 6 mis |
| 166 | Atodol - Llunio Polisi | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 6 mis |
| 167 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 6 mis |
| 168 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn -<br>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (b) cyhoeddi dogfen sy’n cofnodi’r weithdrefn honno ar eich mewnrwyd. | |
| 169 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer<br>(i) goruchwylio’r modd yr ydych yn cydymffurfio â’r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,<br>(ii) hybu’r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â’r safonau hynny, a<br>(iii) hwyluso defnyddio’r gwasanaethau hynny, a<br>(b) cyhoeddi dogfen sy’n cofnodi’r trefniadau hynny ar eich mewnrwyd. | 6 mis |
| 170 | Atodol - Gweithredu | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy’n delio â’r modd y bu ichi gydymffurfio â’r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.<br>(2) Rhaid i’r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo’n berthnasol, i’r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â’r safonau y cyfeirir atynt) -<br>(a) nifer y cyflogeion sy’n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);<br>(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);<br>(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152); | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn -<br>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol<br>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,<br>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu<br>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);<br>(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.<br>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.<br>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.<br>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | |
| 171 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 6 mis |
| 172 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 6 mis |
| 173 | Atodol - Hybu | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - | 6 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | |
| 174 | Atodol - Hybu | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 6 mis |
| 175 | Atodol - Cadw Cofnodion | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 6 mis |
| 176 | Atodol - Cadw Cofnodion | Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadwasoch yn unol â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny. | 6 mis |



**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad: 25/03/2024

# Ffurflen ymateb i ymgynghoriad ar hysbysiad cydymffurfio drafft

**Dyddiad cau ymgynghoriad:** 21 Mehefin 2024

**Enw'r corff:** Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Mae Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') yn ymgynghori â chi ar gynnwys eich hysbysiad cydymffurfio drafft yn unol ag adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'). Dylech ystyried cynnwys yr hysbysiad cydymffurfio drafft ochr yn ochr â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ('y rheoliadau').

Os nad ydych yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, nid yw hyn yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio terfynol i chi. Mae'r Mesur[1] yn nodi mai mater i chi yw dangos bod y gofyniad i gydymffurfio â safon, neu i gydymffurfio â'r safon mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur.

Ar sail y dystiolaeth a dderbynnir drwy'r ymgynghoriad hwn, gall y Comisiynydd osod safonau eraill sydd wedi eu cynnwys o fewn y rheoliadau na osodwyd yn yr hysbysiad cydymffurfio drafft.[2]

Dychwelwch y ffurflen hon ac unrhyw wybodaeth bellach at post@comisiynyddygymraeg.cymru erbyn y dyddiad cau uchod os gwelwch yn dda.

[1] Adran 57(2) y Mesur
[2] Hysbysiad a gyflwynwyd o dan adran 47 y Mesur yw hysbysiad cydymffurfio drafft

## Rhesymoldeb a chymesuredd y safonau

Nodwch unrhyw safon(au) o fewn yr hysbysiad cydymffurfio drafft (os o gwbl) yr ydych yn ystyried yn afresymol ac/neu anghymesur. Nodwch hefyd os oes unrhyw safon(au) ble nad ydych yn cynnal y gweithgaredd dan sylw. Cyflwynwch rhesymau ac/neu tystiolaeth i gefnogi'r safbwynt hwnnw.

Lle bo'n briodol, dylech nodi os ydych yn ystyried y byddai amrywio'r gofyniad yn unol ag adran 44(2) y Mesur (wele enghreifftiau isod, megis gosod diwrnod gosod arall neu osod safon arall sy'n gysylltiedig â'r un gweithgaredd) yn ei wneud yn ofyniad rhesymol a/neu gymesur. Mae croeso i chi hefyd atodi unrhyw ddeunyddiau ategol ar wahân os ydych yn dymuno.

Mae rhai safonau'n ddibynnol ar ei gilydd. Mae'r rheoliadau yn cynnwys tablau (yn Rhan 2 o Atodlenni 1, 3 a 4) i ategu'r safonau cyflenwi gwasanaethau a'r safonau gweithredu. Mae'r tablau yn nodi pa safonau eraill y bydd angen eu gosod hefyd pan fydd safon benodol wedi'i chynnwys mewn hysbysiad cydymffurfio.

| **Safon** | **Rhesymau a thystiolaeth sy'n cefnogi pam eich bod o'r farn bod y gofyniad yn afresymol neu'n anghymesur** | **A fyddai amrywio'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon yn ei wneud yn rhesymol a/neu gymesur?**<br><br>**E.e. cyflwyno'r gofyniad ar adeg wahanol, mewn amgylchiadau gwahanol neu mewn ardaloedd gwahanol, neu osod safon cysylltiedig arall sy'n ymwneud â'r un gweithgaredd. Dylech nodi beth yw'r rhain a rhifau unrhyw safonau perthnasol, gan nodi'r holl resymau ategol a thystiolaeth rydych yn ei ystyried yn berthnasol** |
|---|---|---|
| e.e. Safon 22 | | e.e.<br>○ Diwrnod gosod o 12 mis yn hytrach na 6 mis.<br>○ Gosod diwrnod gosod hirach ar gyfer adran benodol o fewn y sefydliad. |
| | | |
| | | |

**CYFARFOD:** **Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd**

**DYDDIAD:** **21 Mehefin 2024**

**PWNC:** **Datganiad Polisi Tâl 2024/25**

**AWDUR:** **Alwen Williams, Prif Weithredwr dros dro y CBC**

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR:**

I fabwysiadu datganiad polisi tâl Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2024/25.

---

1. **Rhagarweiniad**

i) Yn unol â chynnwys y Ddeddf Lleoliaeth 2011, mae'n ddyletswydd statudol ar i bob awdurdod cyhoeddus fabwysiadu datganiad polisi tâl yn flynyddol, fel sail i'w drefniadau ar gyfer cyflogi staff. Mae'r gofyn hwn yn berthnasol i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

ii) Bu i'r Cyd-Bwyllgor fabwysiadu'r polisi tâl yn gyntaf yn ôl ym Mehefin 2022. Wedi adolygu'r ddogfen honno, daethpwyd i'r casgliad nad oes yna newidiadau i gynnwys y polisi ar hyn o bryd. Cynigir felly bod y datganiad polisi tâl atodol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer 2024/25.

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd fabwysiadu'r datganiad polisi tâl atodol ar gyfer 2024/25.**

**SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro**

Fel nodir yn yr adroddiad fod gofyn statudol ar y Cyd Bwyllgor Corfforedig i fabwysiadau ei Datganiad Polisi Tal ei hun. Mae'n ofyn statudol hefyd fod y Cyd Bwyllgor yn mabwysiadu Datganiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

**Swyddog Cyllid Statudol**

Rwy'n fodlon fod y Polisi Tâl a argymhellir ar gyfer ei fabwysiadu gan y CBC yn gyson gyda'r Gyllideb ar gyfer 2024/25 ac yn cyfarch y gofynion statudol.

# Polisi Tâl – 2024 / 25

## 1. CYFLWYNIAD

Yn unol ag Adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011, mae gofyn i Gyd-bwyllgorau Corfforedig baratoi datganiad polisi tâl. Rhaid i'r datganiad hwn gyfleu beth yw polisïau'r Cyd-bwyllgorau ar nifer o faterion sy'n ymwneud â thâl ei weithlu, yn enwedig ei uwch staff (neu 'brif swyddogion') a'r gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf. Rhaid paratoi datganiad polisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig llawn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cydnabod pa mor allweddol yw rheoli cydnabyddiaeth ariannol mewn modd teg, cyson a thryloyw ac mae'r penderfyniadau a wneir yn y cyswllt hwn yn greiddiol i sicrhau cyflog cyfartal a chydraddoldeb ar draws y Cyd-bwyllgor.

## 2. POLISI TÂL AR GYFER Y PRIF WEITHREDWR

Bydd y polisi hwn yn diffinio telerau ac amodau gwaith prif weithredwr y Cyd-bwyllgor a'r holl staff cyflogedig eraill, a bydd yn cael ei ddiweddaru wrth fabwysiadu strwythur staffio maes o law.

Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyflogi prif weithredwr o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Weithredwyr Llywodraeth Leol a bydd hynny wedi'i ymgorffori mewn cytundeb gwaith . Mae'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol yn negodi codiad cyflog blynyddol cenedlaethol (DU) ar sail costau byw ar gyfer y grŵp hwn. Mae gan y sawl a gyflogir o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw a bydd y Cyd-bwyllgor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol.

## 3. CYFLOGAU

Ni fydd y Cyd-bwyllgor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad i'w brif weithredwr. Mae amodau a thelerau gwaith lleol y Cyd-bwyllgor yn berthnasol i'r prif weithredwr, yn yr un modd ag ar gyfer gweddill y staff, oni nodir yn wahanol yn y polisïau unigol.

Bydd y Cyd-Bwyllgor yn cyhoeddi cyflogau yn y polisi hwn ac ar ei wefan wrth sefydlu strwythur staffio.

## 4. SWYDDI O DAN LEFEL PRIF WEITHREDWR

Mae polisi tâl Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer y staff sydd yn cael eu cyflogi o dan lefel y Prif Weithredwr yn seiliedig ar bolisi tâl cyfartal Cyngor Gwynedd .

Mae'r Cyd-bwyllgor wedi mabwysiadu meini prawf Cynllun Arfarnu Swyddi GLPC fel sail i osod graddfa cyflog ar gyfer pob swydd sydd o dan Amodau Gwaith Gweithwyr Llywodraeth Leol. Mae'r Cyd-bwyllgor wedi ymrwymo i dalu cyflogau yn unol â deddfwriaeth cyflog cyfartal a'r cytundeb "statws sengl" rhwng cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau llafur cydnabyddedig a luniwyd yn

1997. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi penderfynu defnyddio systemau tâl Cyngor Gwynedd fel rhan o’i bolisi tâl ar gyfer ei staff.

Ni fydd y Cyd-bwyllgor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy’n seiliedig ar berfformiad ei weithwyr.

Mae’r berthynas rhwng tâl prif weithredwr a'i weithwyr eraill wedi ei ddylunio i alluogi’r Cyd-bwyllgor i recriwtio a chadw’r gweithwyr addas gorau yn ei swyddi amrywiol, tra’n cynnal y pwyntiau gwahaniaethol a arfarnwyd yn yr arfarniad swyddi.

## 5. TÂL CYCHWYNNOL

Mae'r nifer o hicynnau sydd o fewn pob graddfa yn adlewyrchu'r cyfnod posib o ddatblygiad mewn swydd allai fod yn berthnasol i'r unigolion sydd ar y raddfa honno. Bydd aelodau staff yn cael eu penodi i'r pwynt cyflog o fewn y raddfa sydd yn adlewyrchu'r amser fydd ei angen er mwyn datblygu fel eu bod yn gallu ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd yn llawn.

Yn arferol, penodir pob gweithiwr i’r pwynt cyflog isaf o fewn y raddfa gyflog briodol. Os yw gweithiwr eisoes yn derbyn tâl uwchben y pwynt cyflog isaf neu os oes tystiolaeth ddigonol i arddangos bod y gweithiwr eisoes yn llawn gymwys i gyflawni nifer o agweddau o’r swydd, gellir penodi ar bwynt cyflog uwch o fewn y raddfa gyflog briodol.

Os oes lle o fewn graddfa'r swydd, bydd pob aelod staff yn gymwys i dderbyn hicyn cyflog blynyddol ar y cyntaf o Ebrill, ar yr amod eu bod wedi’u penodi i’w swydd bresennol am fwy na chwe mis cyn y dyddiad hwnnw.

## 6. COSTAU AIL-LEOLI

Mewn sefyllfa pan ei bod yn angenrheidiol i weithiwr ail-leoli er mwyn ymgymryd â swydd, gall y Cyd-bwyllgor, o dan amgylchiadau arbennig, gyfrannu tuag at ad-daliad costau ail-leoli. Mae’r cynllun yn berthnasol i weithwyr a benodir o ganlyniad i hysbyseb neu’n dilyn ad-drefnu mewnol lle bydd rhaid iddynt symud tŷ.

Rhaid i gartref presennol y gweithiwr fod fwy na 20 milltir o’r ganolfan weinyddol cyn y gellir ystyried cais i ad-dalu costau.

O dan yr amgylchiadau hyn, telir cost symud dodrefn ac eiddo yn llawn, yn ddarostyngedig i dderbyn yr isaf o dri dyfynbris ynghyd â chost lawn storio dodrefn hyd at dri mis. Gellir gwneud cyfraniad hyd at £3,270 ar gyfer costau cyfreithiol, ffioedd arwerthwr tai, costau carpedi a llenni a mân gostau symud eraill yn amodol ar ddangos derbynebau perthnasol.

## 7. YCHWANEGIAD Y FARCHNAD

Mae graddfa cyflog pob swydd wedi ei seilio ar gynllun arfarnu swyddi Cyngor Gwynedd. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi mabwysiadu’r cynllun hwn ar gyfer pennu cyflogau i’w swyddi (ar wahân i swydd y prif weithredwr). Golyga hyn fod y system o dalu aelodau staff wedi ei seilio ar gydraddoldeb yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cyflog Cyfartal 1970 ac yn sicrhau cysondeb o ran penderfyniadau sydd yn ymwneud â thâl. O ganlyniad fe allai unrhyw wyriad o'r system hon greu risg sydd angen ei reoleiddio'n gadarn. Mae'n rhaid bod rhesymau pendant a chlir os am gyfiawnhau unrhyw wyriad o'r trefniant hwn.

Fodd bynnag, fe allai sefyllfa godi pan fo pwysau'r farchnad yn creu problemau recriwtio a/neu gadw staff yng nghyswllt swydd benodol. Gall y Cyd-bwyllgor mewn rhai achosion eithriadol, ac er mwyn denu a/neu gadw unigolyn i swydd benodol, gynnig taliad ychwanegol i'r raddfa gyflog sylfaenol sydd wedi ei fabwysiadu.

Yn y cyswllt hwn dim ond pan fydd tystiolaeth ddogfennol ddigonol o fethiant i recriwtio a/neu gadw aelod staff y bydd ychwanegiad y farchnad yn cael ei ddefnyddio. Nid yw ychwanegiad y farchnad yn

ychwanegiad parhaol i gyflog swydd. Os yw'r amgylchiadau sydd yn berthnasol i'r ychwanegiad yn newid, neu os yw aelod staff yn cael ei drosglwyddo gan y Cyd-bwyllgor i swydd arall nad yw'n denu ychwanegiad y farchnad, yna bydd hawl yr unigolyn hwnnw/honno i'r taliad yn peidio, a bydd yr atodiad yn cael ei atal yn unol â'r rhybudd priodol.

## 8. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL (YMGYMRYD Â CHYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL)

Gellir caniatáu taliad ychwanegol pan fo aelod staff yn cytuno i gais i ymgymryd â chyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau sydd y tu hwnt i ddyletswyddau a chyfrifoldebau arferol ei swydd ar sail dros dro. Mae'n rhaid i'r gyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau uwch fod yn sylweddol, yn cael eu harfarnu ar lefel cyflog uwch a thros gyfnod estynedig cyn y gellir cynnig cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol dros-dro.

## 9. FFIOEDD PROFFESIYNOL

Ad-delir un ffi'r flwyddyn i Swyddogion ar gyfer aelodaeth o gorff cydnabyddedig sy’n berthnasol i’w swyddogaeth broffesiynol a phan fo’r aelodaeth hwnnw yn ofyniad gan y Cyngor.

## 10. DEFNYDDWYR CAR

Dynodir pob gweithiwr fel defnyddiwr car achlysurol a thelir ad-daliadau am deithiau busnes ar sail graddfeydd Swyddfa Cyllid y Wlad.

## 11. TREULIAU CYNHALIAETH

Telir ad-daliadau cynhaliaeth, ar gyflwyniad derbynneb, os yw aelod staff yn teithio tu allan i'r Sir ar gyfer brecwast, cinio, te a swper, a hynny hyd at yr uchafswm ar gyfer lwfansau cynhaliaeth. Ar gyfer y staff hynny sydd â'u gwaith yn golygu eu bod yn teithio ar draws mwy nag un Sir e.e. Gwynedd a Môn, diffinnir "y tu allan i'r Sir" fel y tu allan i'r ardal waith arferol.

## 12. GWEITHIO ORIAU YCHWANEGOL

Telir gweithwyr, a gyflogir ar bwynt 22 neu is, ar sail unwaith a hanner o’r cyflog sylfaenol yr awr pan yn gweithio mwy na 37 awr mewn wythnos (trefniadau amgen ar gyfer gweithwyr gyda phatrymau gwaith pan fo’r oriau a weithir ar sail pythefnos/misol neu flynyddol). Caniateir tâl sylfaenol neu amser yn ei le i staff a gyflogir ar bwynt uwch na 22 pan eu bod yn gweithio mwy na 37 awr, neu os yw’r prif weithredwr wedi cymeradwyo’r gwaith ychwanegol ymlaen llaw yna gellir awdurdodi tâl ar sail amser a hanner.

## 13. GWEITHIO ORIAU ANGHYMDEITHASOL

Telir cyflog ar y raddfa sylfaenol am waith, oddi fewn i’r 37 awr, a gyflawnir ar y penwythnos. Telir tâl chwyddedig o dâl sylfaenol a thraean rhan o’r cyflog am waith a gyflawnir rhwng 10 y nos a 6 y bore i weithwyr sy’n gweithio yn ystod yr oriau hynny.

Telir cyflog yn unol â’r cytundeb cenedlaethol ar gyfer gwaith a gyflawnir ar wyliau banc a gwyliau statudol ychwanegol.

## 14. LWFANS CYMORTH CYNTAF

Telir lwfans blynyddol i weithwyr sydd yn gweithredu fel Cymorthyddion Cyntaf dynodedig.

## 15. DISWYDDO AC YMDDEOL

Mae cynlluniau diswyddo ac ymddeol y Cyd-bwyllgor yn cael eu gweithredu'n gyfartal a theg i bob aelod staff, waeth beth fo'u graddfa cyflog, eu hoedran neu eu rhyw ac fe'i gweithredir yn unol â rheoliadau'r cynlluniau pensiwn perthnasol. Nid oes unrhyw eithriadau i brif swyddogion.

## 16. CYNLLUN COLLED ARIANNOL

Diffinnir colled ariannol fel colled o ganlyniad i newid mewn graddfa cyflog ac amodau a thelerau cytundebol. Mae'r Cyd-bwyllgor yn darparu cymorth ariannol i staff sy'n wynebu sefyllfa o golled ariannol (yn sgil ail-strwythuro neu ail-ddyrannu cyfrifoldebau) am gyfnod o ddwy flynedd oddi ar ddyddiad gweithredol y newid i'w pecyn cyflogaeth, gyda 100% o warchodaeth yn y flwyddyn gyntaf a 50% yn yr ail. Bydd y cymorth ariannol hwnnw yn dod i ben ar ôl dwy flynedd oni bo'r aelod staff unigol yn y cyfamser wedi'i benodi i swydd arall ple nad yw o/hi yn wynebu'r golled ariannol.

## 17. AIL-GYFLOGI

Bydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried pob ymgeisydd yn ôl ei r(h)inweddau ei hun a bydd yn penodi gyda'r bwriad o gyflawni'r effeithlonrwydd gorau ar gyfer y gwasanaeth a'r gwerth gorau ar gyfer ei drethdalwyr. Byddai'r fath benodiad, os byddai'n cael ei wneud, yn destun unrhyw leihad a nodir yn y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Yn unol â deddfwriaeth trethiant, rhaid i reolwyr sicrhau ym mhob achos fod unrhyw drefniant i dalu unigolyn am waith trwy 'gytundeb o wasanaeth' wedi bod yn destun prawf statws cyflogaeth fel sy'n ymddangos ar wefan CThEM, a cynhelir y prawf yma yn hollol wrthrychol.

## 18. PENODI PRIF SWYDDOG NEWYDD (CYFLOG O £100,000 A THROSODD)

Bydd y Cyd-bwyllgor llawn yn cymeradwyo unrhyw newid i becyn cyflog swydd o'r fath cyn yr eir ati i recriwtio. Byddai angen cyfeirio'r mater at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol hefyd, yn unol â rhan 3 o'r polisi hwn.

Hysbysebir yn allanol ar gyfer llenwi swydd o'r fath.

## CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

## 21 Mehefin, 2024

TEITL: Calendr Cyfarfodydd

AWDUR: Iwan Evans, Swyddog Monitro

**1. Y PENDERFYNWYD A GEISIR :**

1.1. Cymeradwyo'r calendr drafft ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mai 2025.

**2. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

2.1. Yn ei Gyfarfod Blynyddol gall y CBC benderfynu pa mor aml y bydd ei gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn ddinesig ganlynol.

**3. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

3.1. Mae nifer ac amlder y cyfarfodydd yn ôl disgresiwn y CBC. Er mwyn caniatáu ymarfer swyddogaethau'r CBC yn effeithiol ac effeithlon a sicrhau tryloywder ei benderfyniadau mae Canllawiau Statudol yn nodi y dylai cyfarfodydd fod yn ddigon aml, a hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad ei Aelodau a'r cyhoedd yn ei waith.

3.2. Mae cyfarfodydd arfaethedig y CBC fel a ganlyn:

- 6 Medi, 2024 (pm)
- 11 Hydref, 2024 (pm)
- 22 Tachwedd, 2024 (pm)
- 17 Ionawr, 2025 (pm)
- 21 Mawrth, 2025 (pm)
- 23 Mai, 2025 (pm)

3.3. Yr argymhelliad yw bod y CBC yn cymeradwyo'r calendr drafft.

SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Awdur yr adroddiad.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"O ran materion ariannol, mae'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer y cyfarfodydd perthnasol yn caniatáu i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gydymffurfio ag amserlenni adrodd ariannol."



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales